



LIC 23-09

Canllawiau Statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd 2023

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020,

Dyddiad cyhoeddi: 1 Ebrill 2023

CYNNWYS

Clawr	1
Tudalen gynnwys	2
Geirfa	5
Rhagair	5
Pennod 1 - Cyflwyniad a Diben	8
Cyflwyniad	8
Diben y Canllawiau	9
Pennod 2 - Cymhwyso'r Ddyletswydd Gonestrwydd	11
Y ddyletswydd gonestrwydd statudol a'r dyletswyddau gonestrwydd proffesiynol presennol	
I bwy y mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn Gymwys?	12
Pryd y mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn Gymwys	13
Pennod 3 – Sefydlu Lefel y Niwed	14
Mwy nag ychydig o niwed	14
Diffiniadau o niwed	14
Niwed' anfwriadol' neu 'annisgwyl'	15
Sgil-efeithiau a chymhlethdodau	15
Beth yw ystyr niwed 'y gallai' defnyddiwr gwasanaeth ei brofi	16
Achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd	17

Niwed wrth aros am ddiagnosis neu ofal	18
Niwed wedi'i achosi'n fwriadol	18
Pennod 4 Y Weithdrefn Gonestrwydd	19
Hysbysu	19
Sut i hysbysu	22
Pwy sy'n hysbysu a diben hysbysu	23
Hysbysiad ysgrifenedig dilynol	25
Yr ymddiheuriad	26
Hysbysu am ganlyniadau ymholiadau pellach	27
Cyfathrebu â defnyddiwr gwasanaeth/person sy'n gweithredu ar ei ran	28
Cefnogi a hyfforddi	29
Cadw cofnodion	30
Pennod 5 Yr Ymchwiliad	31
Gweithio i wella a'r ddyletswydd gonestrwydd	31
Pennod 6 Trefniadau cymhleth a'r ddyletswydd gonestrwydd	32
Pan fydd mwy nag un corff GIG yn rhan o'r weithdrefn	32
Gofal a ddarperir yn gymysg rhwng cyrff GIG a sefydliadau gofal cymdeithasol	33
Cymhwyso'r weithdrefn i gomisiynu i chynnal gwasanaethau	34
Gwasanaethau a gomisiynir gan gorff GIG oddi wrth un arall yng Nghymru	34
Gwasanaethau a gomisiynir gan gyrff nad ydynt yn gyrff GIG yng Nghymru	34
Cymhwyso'r ddyletswydd gonestrwydd i ofal a gomisiynir y tu allan i Gymru	35
Gwasanaethau a gynhelir gan gyrff GIG	35

Pennod 7 Ystyriaethau arbennig	35
Plant a phobl ifanc	35
Adolygu achosion yn ôl-weithredol	38
Pennod 8 Trefniadau goruchwyllo	38
Gofynion adrodd	39
Darparwyr Gofal Sylfaenol: dyletswydd i adrodd	40
Cyhoeddi adroddiadau	41
Trefniadau sicrwydd a monitro'r Bwrdd	41
Cyfrinachedd	42

GEIRFA

Dehongli; yn y canllawiau hyn:

- Ystyr Deddf 2006 yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.
- Ystyr Rheoliadau 2011 yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.
- Ystyr y Ddeddf yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.
- Ystyr ymddiheuriad yw mynegiant o dristwch neu edifeirwch mewn perthynas â'r canlyniad andwyol hysbysadwy.
- Ystyr gweithdrefn gonestrwydd yw'r weithdrefn a nodir yn Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd y mae'n rhaid i gorff GIG ei dilyn mewn perthynas â chanlyniad andwyol hysbysadwy.
- Ystyr Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yw Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023.
- Mae niwed yn cynnwys niwed seicolegol ac, yn achos defnyddiwr gwasanaeth sy'n feichiog, golli neu niweidio'r plentyn heb ei eni.
- Ystyr gofal iechyd yw gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru o dan neu yn rhinwedd Deddf 2006 ar gyfer neu mewn perthynas ag—
 - (a) atal salwch, gwneud diagnosis ohono neu ei drin.
 - (b) hybu ac amddiffyn iechyd y cyhoedd.
- Mae i salwch yr ystyr a roddir iddo yn adran 206 o Ddeddf 2006.
- Corff GIG yw—
 - (a) Bwrdd Iechyd Lleol.
 - (b) Ymddiriedolaeth GIG.
 - (c) Awdurdod Iechyd Arbennig.
 - (d) darparwr gofal sylfaenol.
- Mae canlyniad andwyol hysbysadwy yn digwydd pan ddaw dyletswydd gonestrwydd yn effeithiol yn unol ag adran 3 o'r Ddeddf.
- Ystyr defnyddiwr gwasanaeth yw person, y mae corff GIG yn darparu neu wedi darparu gofal iechyd iddo, sydd wedi dioddef canlyniad andwyol;
- Ystyr Awdurdod Iechyd Arbennig yw corff a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf 2006; ond nid yw'n cynnwys unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig trawsffiniol (o fewn yr ystyr yn adran 8A(5) o Ddeddf 2006) ac eithrio Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.
- Mae person yn ddarparwr gofal sylfaenol i'r graddau (a dim ond i'r graddau) y mae'r person yn darparu gofal iechyd ar ran Bwrdd Iechyd Lleol yn rhinwedd contract, cytundeb neu drefniant o dan Ran 4, 5, 6 neu 7 o Ddeddf 2006 rhwng y person a'r Bwrdd Iechyd Lleol.
- Mae defnyddiwr gwasanaeth i'w drin fel pe bai wedi dioddef canlyniad andwyol os yw'r defnyddiwr yn profi mwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu anfwriadol neu os yw'r amgylchiadau yn golygu y gallai brofi niwed o'r fath.

- Adolygiad: adolygiad yw'r eglurhad o'r digwyddiad sydd wedi'i adrodd ac asesiad o lefel y niwed sydd wedi digwydd neu a allai ddigwydd i'r defnyddiwr gwasanaeth unigol gan uwch-aelod o staff i asesu a yw'r trothwy ar gyfer sbarduno dyletswydd gonestrwydd wedi'i fodloni. Cyfeirir at hyn weithiau fel cymeradwyo'r digwyddiad.
- Ymchwiliad: yr archwiliad manwl (ymholiadau ychwanegol fel y'u rhestrir yn y rheoliadau Gonestrwydd) a gynhelir i ddeall beth sydd wedi digwydd ac unrhyw achosion sylfaenol a dysgu fel y'u hamlinellir yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac lawn) (Cymru) 2011.
- At ddibenion y canllawiau hyn ac i wneud y cysylltiadau â Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd, cyfeirir at y term defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran fel 'person perthnasol' yn y Rheoliadau. Cyfeirir at y corff GIG yn y Rheoliadau fel 'corff cyfrifol.'
- Mae Datix Cymru yn blatfform digidol i adrodd am ddigwyddiadau a phryderon a'u rheoli, ac mae'n rhan o Raglen System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru, sy'n cynnwys Datix Cymru a Phrofiad CIVICA Cymru.

RHAGAIR

Mae cyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020¹ ('y Ddeddf'), yn tanlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wasanaethau iechyd diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar y person. Gosodir y ddyletswydd ar Gyrrff GIG (Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau GIG, Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG o ran ei swyddogaethau yng Nghymru) ac ar ddarparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru o ran y gwasanaethau y maent yn eu darparu dan gontract neu drefniadau eraill gyda Bwrdd Iechyd Lleol.

Prif nod y ddyletswydd yn y Ddeddf yn y pen draw yw gwasanaethu defnyddwyr gwasanaethau drwy sicrhau, os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn profi unrhyw niwed annisgwyl neu anfwriadol sy'n fwy nag ychydig o niwed, neu os yw'r amgylchiadau yn golygu y gallai brofi niwed o'r fath, a bod y ddarpariaeth gofal iechyd yn ffactor neu y gall fod wedi bod yn ffactor, mae'r defnyddiwr gwasanaeth (neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran) yn cael gwybod, yn cael ymddiheuriad ac yn cael cynnig manylion gwasanaethau neu gymorth perthnasol. Mae'n ofynnol hefyd i'r corff GIG roi i'r defnyddiwr gwasanaeth neu i'r person sy'n gweithredu ar ei ran eglurhad o'r camau y bydd y corff cyfrifol neu'r darparwr yn eu cymryd, a'r ymholiadau pellach y bydd y corff cyfrifol neu'r darparwr yn eu cynnal, i ymchwilio i amgylchiadau'r canlyniad andwyol hysbysadwy, gan gynnwys unrhyw gamau sydd i'w cymryd o dan Reoliadau Trefniadau Pryderon, Cwynion ac lawn (Cymru) 2011².

¹ Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020
<https://www.legislation.gov.uk/asc/2020/1/contents>

² Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac lawn) (Cymru) 2011
<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/704/contents/made>

Nid Cymru yw'r unig awdurdodaeth yn y DU i fod â ddyletswydd gonestrwydd. Yn Lloegr, mae'r ddyletswydd wedi'i nodi yn rheoliad 20 o Reoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir) 2014³. Yn yr Alban, mae wedi'i nodi yn Rhan 2 o Ddeddf Iechyd (Tybaco, Nicotin etc. a Gofal) (Yr Alban) 2016⁴.

Ein hamcan polisi cyffredinol, yn unol â'n dyheadau yn Cymru Iachach⁵ am ofal mwy integredig, yw sicrhau os bydd person yn cael gofal gan y GIG, neu gan ddarparwr rheoleiddiedig gwasanaethau gofal cymdeithasol, bod y person hwnnw'n gallu bod yn dawel ei feddwl y bydd y darparwr gofal yn ei drin mewn ffordd agored a gonest.

Ym maes gofal cymdeithasol, mae dyletswydd gonestrwydd yn bodoli eisoes ar gyfer darparwyr ac unigolion cyfrifol gwasanaethau rheoleiddiedig o dan Reoliadau 2017⁶.

Mae gwaith yn cael ei wneud ar wahân i wneud Rheoliadau i osod dyletswydd gonestrwydd ar ddarparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000⁷. Rydym wedi gallu trafod yn gadarnhaol iawn â chynrychiolwyr o'r sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, a'r bwriad yw gweithio gyda nhw i gyflwyno dyletswydd gonestrwydd sy'n gymwys i'r sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Rhagwelir mai'r dyddiad dod i rym fydd Ebrill 2024.

Rydym yn gwybod bod y mwyafrif llethol o ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eisiau darparu gofal diogel a thosturiol o ansawdd uchel. Fodd bynnag, yn yr un modd, er gwaethaf y bwriadau hyn, gwyddom ei bod hi'n anochel mewn gwasanaethau cymhleth ac amlochrog y bydd pobl yn dioddef niwed o bryd i'w gilydd.

Pan fyddan nhw, mae'r ffordd y mae Cyrff GIG yn delio â'r sefyllfaoedd hyn yn bwysig iawn, a gall wneud gwahaniaeth enfawr i brofiadau pobl ac i'w perthynas barhaus â'u darparwr gofal. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn lleoliadau gofal iechyd, lle mae gan bobl berthynas hirsefydlog â'u darparwyr gofal yn aml. Mae hi'n anodd ennill ymddiriedaeth, ond mae'n hawdd ei cholli. Dylai bod yn agored ac yn onest fod wrth galon pob perthynas rhwng y rhai sy'n darparu, sy'n derbyn ac/neu sy'n cael triniaeth a gofal.

³ Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir) 2014 (OS 2008/2936). <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2014/9780111117613/regulation/20>

⁴ Deddf Iechyd (Tybaco, Nicotin ac ati a Gofal) (Yr Alban) 2016 <https://www.legislation.gov.uk/asp/2016/14/contents>

⁵ Llywodraeth Cymru 2018 – Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol [Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU](https://www.llywodraeth.cymru.gov.uk/iachach/cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-a-gofal-cymdeithasol)

⁶ Llywodraeth Cymru - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/contents/made>

⁷ Deddf Safonau Gofal 2000 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/contents>

1. Pennod 1 - Cyflwyniad a Diben

Cyflwyniad

- 1.1 Bydd y Ddeddf yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023. Mae'n gyfrwng i wella a diogelu iechyd, gofal a llesiant poblogaeth Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Ei nod yw rhoi llais cryfach i ddinasyddion a gwella atebolrwydd gwasanaethau i ddarparu profiad ac ansawdd gofal gwell. Bydd gwneud hynny'n cyfrannu at wlad iach a mwy ffyniannus. Yn ei chyfanrwydd, bwriedir i'r Ddeddf roi budd cadarnhaol cronus i bawb yng Nghymru, gan gefnogi diwylliant ac amodau sy'n canolbwyntio ar sicrhau gwelliannau mewn iechyd a gofal cymdeithasol.
- 1.2 Nod y canllawiau statudol hyn yw helpu cyrff y GIG i gyflawni gofynion y ddyletswydd gonestrwydd.
- 1.3 Nodir y sail gyfreithiol ar gyfer y ddyletswydd yn Rhan 3 o'r Ddeddf. Mae adran 3 yn rhagnodi pryd y mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn gymwys. Mae adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau sy'n nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i Gyrff GIG ei dilyn pan sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd. Mae adrannau 5 i 8 yn rhagnodi'r gofynion adrodd. Ystyrir yr adrannau hyn o'r Ddeddf yn fanylach yn nes ymlaen yn y canllawiau.
- 1.4 Bydd cydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd hefyd yn ei gwneud yn haws i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig gydymffurfio â:
- y ddyletswydd ansawdd yn adran 2 o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gyrff gyflawni eu swyddogaethau gyda'r bwriad o sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd.
 - y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol⁸ a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010⁹, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff roi sylw dyladwy i ddymunoldeb cyflawni eu swyddogaethau mewn modd sydd wedi'i gynllunio i leihau'r anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol;
 - y ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹⁰ i gyflawni datblygu cynaliadwy.
- 1.5 Mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn cynorthwyo pawb yng Nghymru, ac mae gwybodaeth amdani ar gael hygyrch iddynt. Mae'n hybu penderfyniadau gwell ac yn y pen draw mae'n ceisio cyflawni canlyniadau gwell i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Gyrff GIG gynnwys pobl

⁸ Canllawiau Statudol: Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoliadau Awdurdodau sy'n destun dyletswydd ynghylch anghydraddoldebau cymdeithasol-economaidd) (Cymru) 2021 <https://senedd.cymru/media/405ljabt/gen-ld14109-w.pdf>

⁹ Deddf Cydraddoldeb 2010 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents>

¹⁰ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 <https://www.futuregenerations.wales/about-us/future-generations-act/>

mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a hwyluso camau ataliol, a thrwy hynny wella ansawdd gwasanaethau ac edrych tua'r tymor hir.

- 1.6 Y prif fwrriad felly yw adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i gyflawni drwy adrodd yn well ac ymchwilio i ddigwyddiadau'n gymesur, yn unol â'r Polisi Cenedlaethol ar Adrodd am Ddigwyddiadau Diogelwch yn Ymwneud a Chleifion¹¹ newydd a chyflwyno'r broses Gweithio i Wella¹² ar gyfer ymchwilio i bryderon a chwynion. Mae'r broses o gyflwyno dyletswydd gonestrwydd sefydliadol fwy strwythuredig a ategir gan ganllawiau statudol a Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yn helpu i ddatblygu ymhellach y diwylliant o fod yn agored yn y GIG yng Nghymru.

DIBEN Y CANLLAWIAU

- 1.7 Bod yn agored gyda defnyddwyr gwasanaethau a'u cynrychiolwyr pan fydd pethau'n mynd o chwith yn eu gofal yw'r peth iawn i'w wneud. Mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi'i chynllunio i greu amgylchedd diogel sy'n gefnogol ac yn rymusol i'r rhai sy'n darparu, yn derbyn ac/neu sy'n cael triniaeth a gofal yn y GIG.
- 1.8 Yn y canllawiau hyn, mae'r gair **rhaid** yn cyfeirio at gamau gweithredu sy'n ofyniad cyfreithiol fel y nodir yn Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd neu yn Rhan 3 o'r Ddeddf. Mae gweddill y canllawiau wedi'u cynllunio i ddarparu fframwaith arferion gorau i helpu Cyrff GIG i weithredu a chymhwyso'r ddyletswydd.
- 1.9 Yn unol ag adran 10 o'r Ddeddf, rhaid i Gyrff GIG roi sylw i'r canllawiau wrth arfer swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r dyletswydd gonestrwydd. Mae 'rholi sylw' yn golygu y bydd rhaid i'r rhai y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt fod yn gyfarwydd â hi a dangos eu bod yn ystyried ei hegwyddorion wrth wneud unrhyw benderfyniadau perthnasol o ran digwyddiadau neu bryderon yn ymwneud â gofal iechyd defnyddwyr gwasanaethau. Pe bai cyrff y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt yn penderfynu gwyro oddi wrth y canllawiau a nodir yma, dylai unrhyw wriad o'r fath gael ei resymu'n briodol ac yn rhesymegol a chael ei gydbwyso yn erbyn eu rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y Ddeddf.
- 1.10 Mae'r canllawiau'n cynnwys enghreifftiau ac astudiaethau achos i helpu cyrff GIG i ddeall pryd y mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno, ac mae'n cynnig siartiau llif cam wrth gam ar gyfer y weithdrefn.

¹¹ Llywodraeth Cymru, Mai 2021 Polisi Cenedlaethol ar Adrodd am Ddigwyddiadau'n Ymwneud â Diogelwch Cleifion <https://ug.gig.cymru/diogelwch-cleifion-cymru/digwyddiadau-syn-ymwneud-a-diogelwch-cleifion/>

¹² Llywodraeth Cymru 2011 Putting Things Right Guidance on dealing with concerns about the NHS from 1 April 2011 version 3. <https://nwssp.nhs.wales/ourservices/legal-risk-services/legal-risk-services-documents/general-medical-practice-indemnity-gmpi-docs/healthcare-quality-guidance-dealing-with-concerns-about-the-nhs/>

- 1.11 Mae hefyd yn cynnwys canllawiau i Gyrff GIG ar gydymffurfio â'r dyletswyddau sydd arnynt o ran adrodd, sy'n elfen allweddol o'r ddyletswydd gonestrwydd.
- 1.12 Mae'r canllawiau'n rhoi sylfaen i Gyrff GIG ddatblygu polisiâu a gweithdrefnau lleol, a gofynion hyfforddi a chefnogi sydd wedi'u teilwra i'r corff a/neu'r gwasanaethau penodol y maent yn eu darparu, a bydd yn helpu i sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu a thegwch o ran ymateb: sef 'model Cymru gyfan:
- 1.13 Bydd y canllawiau'n cael eu hategu gan becyn hyfforddi ar-lein i helpu Cyrff GIG i weithredu'r ddyletswydd. Gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i ddechrau fel rhan o'r broses Gweithio i Wella i wreiddio ymddygiad agored, mae rhaglen hyfforddi Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i annog y "newid diwylliannol" drwy wneud bod yn agored ac yn dryloyw yn rhan arferol o'r diwylliant ar draws Cyrff GIG yng Nghymru.
- 1.14 Bwriedir hefyd i'r canllawiau fod yn ddeunydd cyfeirio i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u cynrychiolwyr. Mae taflenni ar gael i sicrhau bod pawb yn ein cymuned yn gallu cael gafael ar ddeunyddiau a fydd yn eu grymuso i ofyn cwestiynau am y gofal a'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn, i'w helpu i ddeall beth y mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn ei olygu, a beth y gallant ei ddisgwyl gan eu darparwyr gofal pan gaiff ei sbarduno.
- 1.15 Ni fwriedir iddynt fod yn ddehongliad pendant o'r ddeddfwriaeth ar y ddyletswydd gonestrwydd. Dylid darllen y Ddeddf, Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd a chanllawiau'r Ddyletswydd Gonestrwydd gyda'i gilydd.
- 1.16 Rydym yn cydnabod hefyd mai dim ond rhan o'r broses yw'r Ddeddf, y Rheoliadau a'r fframwaith cysylltiedig, er eu bod yn bwysig. Er mwyn gwreiddio'r ddyletswydd gonestrwydd go iawn bydd hefyd angen goresgyn y pethau sy'n rhwystro diwylliant agored a gonest. Mae'r rhwystrau hynny'n cynnwys ofn, diwylliant o gyfrinachedd a/neu feio, diffyg hyder mewn sgiliau cyfathrebu, ofn ypsetio pobl ac amheuaeth a yw datgelu yn ffordd dda o wella diwylliant. Mae ofni bai, sgil-effeithiau proffesiynol neu sefydliadol, atebolrwydd cyfreithiol, ymatebion negyddol a diffyg atebolrwydd hefyd yn gallu bod yn rhwystrau rhag datgelu.
- 1.17 Bydd system heb rwystrau artiffisial rhwng Cyrff GIG, lle mae gofal a chymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, lle mae staff yn cael cymorth i wella gofal yn hytrach na'i reoli neu ei ddarparu'n unig, a lle mae pwyslais ar atebolrwydd, yn helpu i oresgyn y rhwystrau hyn.

2 Pennod 2 – Cymhwyso'r Ddyletswydd Gonestrwydd

Y ddyletswydd gonestrwydd statudol a'r dyletswyddau gonestrwydd proffesiynol presennol.

- 2.1 Bu galwadau am osod dyletswydd gonestrwydd¹³¹⁴¹⁵¹⁶ ar Gyrrff GIG yng Nghymru, ar wahân i, a chan ategu'r dyletswyddau gonestrwydd anstatudol sy'n gymwys i amryw o weithwyr gofal iechyd proffesiynol fel rhan o'u rheoleiddio proffesiynol. Er hynny, dylid cydnabod bod canllawiau Dyletswydd Gonestrwydd proffesiynol yn gymwys mewn mwy o sefyllfaoedd na'r Ddyletswydd Gonestrwydd ar sefydliadau yng Nghymru.
- 2.2 Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau gonestrwydd proffesiynol yn gorfod bod yn agored ac yn onest gyda defnyddwyr gwasanaethau, eu cydweithwyr, eu cyflogwyr a sefydliadau perthnasol, a rhaid iddynt gymryd rhan mewn adolygiadau ac ymchwiliadau pan ofynnir iddynt wneud hynny. Rhaid iddynt gefnogi ac annog ei gilydd i fod yn agored ac yn onest¹⁷. Rhaid iddynt hefyd fod yn agored ac yn onest â'u rheoleiddwyr, gan godi pryderon pan fydd hynny'n briodol. Felly, mae egwyddorion sylfaenol dyletswydd gonestrwydd eisoes wedi'u gwreiddio ar draws cyfres eang o Gyrrff GIG drwy'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n gweithio ynddynt.
- 2.3 Mae gan y ddyletswydd gonestrwydd statudol a'r dyletswyddau gonestrwydd proffesiynol yr un nodau – sef bod yn agored ac yn dryloyw gyda phobl sy'n cael gofal a thriniaeth. Bydd y cysylltiadau cryf rhwng y dyletswyddau gonestrwydd statudol a phroffesiynol yn grymuso staff i siarad yn agored am bryderon, ac yn annog dysgu i wella ansawdd y ddarpariaeth gofal.
- 2.4 Mae dyletswydd gonestrwydd broffesiynol yn ymwneud ag arferion proffesiynol unigolion tra bod y ddyletswydd sefydliadol statudol yn cael ei rhoi ar sefydliad i sicrhau, pan gaiff ei sbarduno, bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu trin yr

¹³ Kennedy, I, ac eraill. The Bristol Royal infirmary inquiry. Learning from Bristol - The Report of the Public Inquiry into children's heart surgery at the Bristol Royal Infirmary 1984-1995 [y Rhyngwrdd]. Y Goron; 2001. Ar gael yn: https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20090811143822/http://www.bristol-inquiry.org.uk/final_report/the_report.pdf

¹⁴ Donaldson, L. Making Amends - A consultation paper setting out proposals for reforming the approach to clinical negligence in the NHS [y Rhyngwrdd]. Cyhoeddiadau'r Adran Iechyd; 2003. Ar gael yn: https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20120809195448/http://www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/@dh/@en/documents/digitalasset/dh_4060945.pdf

¹⁵ Francis, R ac eraill. Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry [y Rhyngwrdd]. Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Swydd Stafford; 2013. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/report-of-the-mid-staffordshire-nhs-foundation-trust-public-inquiry>

¹⁶ Evans, K. "Defnyddio Cwynion yn Rhodd – adolygiad o ymdrin â phryderon (cwynion) yn GIG Cymru. 2014. <https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/140702complaintsen.pdf>

¹⁷ Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol 2022. Openness and honesty when things go wrong: the professional duty of candour. https://www.nmc.org.uk/standards/guidance/the-professional-duty-of-candour/read-the-professional-duty-of-candour/#about_guidance

un mor agored a thryloyw gan y sefydliad o ran yr hyn a ddigwyddodd yn eu gofal.

- 2.5 Bydd y ddyletswydd statudol yn hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac yn onest ar draws y system. Mae hefyd yn gosod gofyniad, ar lefel sefydliadol, i Gyrrff GIG ddilyn gweithdrefn benodedig a ategir gan Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd, i ddangos bod cyfres o gamau rhagnodedig wedi'u cymryd pan sbardunir y ddyletswydd. Disgrifir y camau hyn ym Mhennod 3 isod, a ategir yn **Atodiad C** gan siart lif o'r weithdrefn. Bydd y seilwaith hwn yn helpu i greu'r amodau i Gyrrff GIG gyflawni'r ddyletswydd gonestrwydd yn hyderus pan gaiff ei sbarduno. Mae astudiaethau achos yn atodiad H sy'n rhoi enghreifftiau clinigol.
- 2.6 Fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol
Dylai fferyllwyr cofrestredig, technegwyr fferyllol a phobl sy'n gweithio o dan eu goruchwyliaeth mewn fferyllfeydd manwerthu barhau i fod yn ymwybodol o ddarpariaethau Gorchymyn Fferylliaeth (Gwallau Paratoi a Chyflenwi – Fferyllfeydd Cofrestredig) 2018 (“Y Gorchymyn”)¹⁸. Mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn wynebu risg o gael eu herlyn o dan adran 63 (difwyno cynhyrchion meddyginiaethol) ac adran 64 (amddiffyn prynwyr cynhyrchion meddyginiaethol) o Ddeddf Meddyginiaethau 1968¹⁹ os byddant yn gwneud gwallau wrth baratoi neu gyflenwi meddyginiaethau.
- 2.7 Er mwyn elwa ar yr amddiffyniadau yn adran 67B (amddiffyniad i drosedd o fynd yn groes i adran 63(a) neu (b): cynnyrch a werthwyd neu a gyflenwyd) ac adran 67C (amddiffyniad i drosedd o fynd yn groes i adran 64) o Ddeddf Meddyginiaethau 1968, rhaid bodloni'r amodau ar gyfer elwa ar yr amddiffyniadau, gan gynnwys yr amodau sy'n ymwneud â hysbysu'r person y bwriadwyd rhoi'r cynnyrch iddo.
- 2.8 O ganlyniad, mae angen ystyried gofynion y Gorchymyn ochr yn ochr â'r ddyletswydd gonestrwydd statudol, ac yn ogystal â hi.

I BWY Y MAE'R DDYLETSWYDD GONESTRWYDD YN GYMWYS?

- 2.9 Mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn Rhan 3 o'r Ddeddf yn gymwys i'r Cyrff GIG canlynol a restrir yn adran 11(3), ac a ddiffinnir drwy gyfeirio at adran 11(4) a (7):
- Byrddau Iechyd Lleol.
 - Darparwyr Gofal Sylfaenol yng Nghymru (h.y. ymarferwyr cyffredinol, deintyddion, optometryddion a fferyllwyr) o ran y gwasanaethau a ddarperir ganddynt o dan gontract neu drefniant â Bwrdd Iechyd Lleol (h.y. mae'n

¹⁸ Gorchymyn Fferylliaeth (Gwallau Paratoi a Chyflenwi - Fferyllfeydd Cofrestredig) 2018. <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2018/181>

¹⁹ Y Ddeddf Meddyginiaethau. <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1968/67/contents>

gymwys i wasanaethau GIG sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr gofal sylfaenol).

- Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru.
- Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru, a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG o ran y swyddogaethau a arferir ganddo mewn perthynas â Chymru.

PRYD Y MAE'R DDYLETSWYDD GONESTRWYDD YN GYMWYS?

2.10 Daw'r ddyletswydd i rym mewn perthynas â chorff GIG os bodlonir y **ddau** amod canlynol:

- (1) Yr **amod cyntaf** yw bod y person (y "defnyddiwr gwasanaeth") y mae'r corff yn darparu neu wedi darparu gofal iechyd iddo wedi dioddef canlyniad andwyol.

2.11 Ystyr 'gofal iechyd' yw gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru o dan neu yn rhinwedd Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2.11 h.y. fel rhan o unrhyw wasanaeth GIG, ar gyfer neu mewn perthynas ag:

- atal salwch, gwneud diagnosis ohono neu ei drin; neu
- hybu ac amddiffyn iechyd y cyhoedd.

2.12 Mae "salwch" yn cynnwys unrhyw anhwylder neu anabledd meddwl ac unrhyw anaf neu anabledd sy'n gofyn am driniaeth feddygol neu ddeintyddol neu nyrsgio.

2.13 Mae ystyr gofal iechyd wedi'i lunio'n eang yn fwriadol i gynnwys yr holl wasanaethau GIG a ddarperir yng Nghymru.

2.14 Mae defnyddiwr gwasanaeth i'w drin fel pe bai wedi dioddef canlyniad andwyol os yw'r defnyddiwr yn profi mwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu anfwriadol neu os yw'r amgylchiadau yn golygu y gallai brofi niwed o'r fath.

2.15 Fel y nodir yn y Nodiadau Esboniadol i'r Ddeddf, gall y ddyletswydd gael ei sbarduno gan gam gweithredu a gymerwyd gan gorff GIG wrth ddarparu gofal iechyd neu drwy fethu â chymryd camau gweithredu.

2.16 At ddibenion y ddyletswydd gonestrwydd, mae niwed yn cynnwys niwed seicolegol ac, yn achos defnyddiwr gwasanaeth sy'n feichiog, colli neu niweidio'r plentyn heb ei eni (adran 11(7) o'r Ddeddf).

- (2) Yr **ail amod** yw bod darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gall fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad hwnnw.

2.17 Felly, rhaid bod y canlyniad yn gysylltiedig â darpariaeth y gofal gan y corff GIG yn hytrach na'i fod yn cael ei briodoli'n unig i salwch neu gyflwr isorweddol y person – gweler rhagor ym Mhennod 2.

- 2.18 Fodd bynnag, nid oes angen bod yn sicr mai'r gofal iechyd a achosodd y niwed. Mae'n ddigon y gallai'r gofal iechyd fod wedi bod yn ffactor.
- 2.19 Yn Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd pan fo'r ddau amod hyn wedi'u bodloni a'r ddyletswydd wedi'i sbarduno, gelwir hyn yn "ganlyniad andwyol hysbysadwy". Yn **Atodiad A** ceir siart llif sy'n amlinellu'r broses adolygu sbardunau.

Pennod 3 - Sefydlu lefel y niwed

Mwy nag ychydig o niwed

- 3.1 Nid yw "mwy nag ychydig o niwed" wedi'i ddiffinio yn y Ddeddf. Fodd bynnag, at ddibenion y canllawiau hyn ystyrir bod "mwy nag ychydig o niwed" yn golygu niwed cymedrol, niwed difrifol a marwolaeth. Mae hyn yn ategu'r prosesau sy'n bodoli eisoes ar gyfer Gweithio i Wella a Bod yn Agored, ac yn cyd-fynd hefyd â'r polisi cenedlaethol ar adrodd am digwyddiadau diogelwch cleifion a'r modiwl adrodd am ddigwyddiadau yn system Datix Cymru. Felly, yn ymarferol, sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn profi niwed annisgwyl neu anfwriadol sy'n gymedrol neu'n fwy, neu os yw'r amgylchiadau'n golygu y gallai brofi niwed o'r fath, a bod y ddarpariaeth gofal iechyd yn ffactor (neu y gall fod wedi bod yn ffactor) a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad hwnnw.
- 3.2 Niwed Cymedrol: yw unrhyw niwed neu niwed parhaol ond nid yw'n golygu bod angen 'cynnydd cymedrol mewn triniaeth' yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Diffinnir cynnydd cymedrol mewn triniaeth fel dychweliad heb ei gynllunio at lawdriniaeth, aildderbyniad heb ei gynllunio i'r ysbyty, episod estynedig o ofal, amser ychwanegol yn yr ysbyty neu fel cleifion allanol neu drosglwyddo i ardal driniaeth arall megis gofal dwys.
- 3.3 Niwed Difrifol: yw lleihau'r swyddogaethau corfforol, synhwyrdd, echddygol, ffisiolegol neu ddeallusol yn barhaol, gan gynnwys tynnu'r aelod anghywir o'r corff neu'r organ anghywir neu niwed i'r ymennydd, sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r digwyddiad ac nad yw'n gysylltiedig â chwrs naturiol salwch neu gyflwr isorweddol y defnyddiwr gwasanaeth.
- 3.4 Marwolaeth: Marwolaeth a achoswyd neu y cyfrannwyd ati gan ddigwyddiad diogelwch cleifion, yn hytrach na marwolaeth sy'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i gwrs naturiol salwch neu gyflwr isorweddol y claf
- 3.5 Mae fframwaith lefelau niwed, sy'n egluro'r mathau o niwed a ystyrir yn gymedrol ac yn uwch, wedi'i gynnwys yn **Atodiad B**.

Niwed 'anfwriadol' neu 'annisgwyl'

- 3.6 I fod yn hysbysadwy, rhaid i'r niwed fod yn anfwriadol neu'n annisgwyl. Gall fod o ganlyniad i naill ai ymyrraeth/triniaeth go iawn, neu ddiffyg mewn gofal, er enghraifft colli diagnosis o ganser.
- 3.7 Wrth gwrs, gall triniaeth feddygol neu lawfeddygol a phob ymyrraeth gofal fod â risgiau cynhenid, neu gall y driniaeth ynddi ei hun achosi cynnydd dros dro mewn symptomau.
- 3.8 Ni fyddai niwed sy'n cael ei achosi gan y driniaeth ei hun (e.e. amhariadau i swyddogaeth o ganlyniad i lawdriniaeth,) yn hysbysadwy o reidrwydd. Gall y rhain fod yn perthyn i'r categori risg hysbys, a allai fod wedi cael ei hesbonio i'r claf, a'i derbyn ganddo, fel rhan o'r broses gydsynio.

Sgil-ffeithiau a chymhlethdodau

- 3.9 Nid yw'n fwriad polisi y byddai pob sgil-ffaith i feddyginiaeth neu driniaeth sydd wedi achosi niwed neu a allai achosi niwed yn sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd. Yn gyntaf, rhaid bodloni'r trothwy niwed a rhaid i'r niwed fod yn anfwriadol neu'n annisgwyl fel yr amlinellir uchod. Yn ei hanfod gall cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â gofal, na chafodd eu trafod fel risg i'r gofal iechyd a ddarparwyd, fodloni'r trothwy sbardun ar gyfer y ddyletswydd. Mae mecanweithiau sefydledig ar gael ar gyfer adrodd am a monitro sgil-ffeithiau ac adweithiau niweidiol meddyginiaeth, a bydd angen dal i ddilyn y rhain a dysgu oddi wrthynt, waeth a yw'r ddyletswydd yn cael ei sbarduno ai peidio.
- 3.10 Mae'n aml yn aneglur yn y camau cychwynnol a oes niwed anfwriadol neu annisgwyl wedi digwydd neu y gallai ddigwydd, ac argymhellir cynnal trafodaeth fel rhan o adolygiad uwch os yw'r sefyllfa'n gymhleth.

Niwed bwriadol:

- 3.11 Mae'r mwyafrif o ddigwyddiadau diogelwch cleifion a allai arwain at sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd yn aml yn cynnwys sgwrs rhwng rheolwyr a goruchwylwyr ynghylch a oes gofyn i aelod o staff sy'n rhan o ddigwyddiad diogelwch cleifion gael cymorth neu ymyrraeth unigol benodol i barhau i weithio'n ddiogel. Anaml iawn y bydd yn briodol rhoi cam gweithredu ar waith

sy'n canolbwyntio ar unigolyn – mae gan y rhan fwyaf o faterion diogelwch cleifion achosion systemig dyfnach sy'n gofyn am weithredu ehangach.

- 3.12 Mae Adroddiad Williams a adroddodd ar laddiad drwy esgeuluster difrifol yn y GIG yn tynnu sylw at y dull hwn²⁰ gan argymhell sefydlu 'Diwylliant Cyfiawn' sy'n rhoi sicrwydd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, cleifion a'u teuluoedd y bydd achosion o esgeulustod difrifol yn cael eu trin mewn modd teg a thosturiol a bod yr algorithm diwylliant cyfiawn dilynol yn cynorthwyo'r trafodaethau²¹ hyn.
- 3.13 Fodd bynnag, ceir ambell sefyllfa brin lle daw'n amlwg y gallai perfformiad neu weithredoedd neu anweithredoedd unigolion fod wedi mynd yn groes i godau ymarfer proffesiynol neu gyfraith droseddol ac nad ydynt yn rhan o achos neu gam gweithredu ehangach yn y sefydliad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion. Mae'n hanfodol nad yw rhoi'r ddyletswydd gonestrwydd ar waith yn ymyrryd ag ymchwiliad brys gan yr heddlu neu gyfarfodydd strategaeth diogelu amlasiantaethol, a gall fod yn angenrheidiol ystyried oedi cyn rhoi'r hysbysiad "uniongyrchol". Argymhellir trafod ag ymchwilwyr arweiniol cyn unrhyw ddatgelu pellach. Mae rheoliad 12 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yn caniatáu hyn.

Beth yw ystyr niwed 'y gallai' defnyddiwr gwasanaeth ei brofi?

- 3.14 Mae'n bwysig nodi bod y ddyletswydd yn cael ei sbarduno nid yn unig pan fo'n hysbys fod niwed wedi digwydd, ond hefyd mewn achosion **lle mae'r amgylchiadau'n golygu y gallai person ddioddef mwy nag ychydig o niwed yn y dyfodol yn sgil rhywbeth sydd eisoes wedi digwydd.** Er enghraifft, pe bai gwall wrth roi meddyginiaeth yn achosi mwy nag ychydig o niwed y dyfodol.
- 3.15 Bydd rhaid i Gyrrff GIG farnu a yw'r amgylchiadau'n golygu y gallai'r defnyddiwr brofi mwy nag ychydig o niwed. Yn achos gwall wrth roi meddyginiaeth, gallai barnu a allai gwall o'r fath arwain at fwy nag ychydig o niwed ddibynnu ar natur y feddyginiaeth a roddwyd mewn camgymeriad, neu amgylchiadau'r defnyddiwr gwasanaeth penodol
- 3.16 Er mwyn ei roi yn ei gyd-destun ar gyfer ymarferwyr, mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi esbonio hyn yn ei ganllawiau ar ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol fel sefyllfaoedd lle y gallai'r claf eto ddioddef niwed oherwydd canlyniad andwyol.
- 3.17 Mae **Atodiad H** yn cynnwys astudiaethau achos enghreifftiol sy'n rhoi enghreifftiau manwl o achosion a fyddai'n sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd

²⁰ Williams N (2018) Gross negligence manslaughter in healthcare The report of a rapid policy review. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/717946/Williams_Report.pdf

²¹ NHSE and NHSI (2021) Just culture guide. https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2021/02/NHS_0932_JC_Poster_A3.pdf

a'r rheini na fyddent yn gwneud hynny. Mae hefyd yn cynnwys enghreifftiau o achosion sy'n dangos y ddyletswydd yn cael ei sbarduno lle gallai niwed ddigwydd yn y dyfodol. (Astudiaethau achos 9, 10 ac 11).

ACHOSION Y BU OND Y DIM IDDYNT DDIGWYDD

- 3.18 Y rhain yw unrhyw ddigwyddiadau diogelwch cleifion a oedd â'r potensial i achosi niwed ond a ataliwyd, gan arwain at ddim niwed i bobl sy'n cael gofal a ariennir gan y GIG yng Nghymru. **Nid** yw achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn cael eu hystyried yn sbardun ar gyfer y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd. Bwriad y ddyletswydd yw cofnodi mwy nag ychydig o niwed sy'n amlwg adeg y digwyddiad neu a allai ymddangos yn nes ymlaen. Gydag achosion o'r fath, mae'r niwed (neu'r potensial ar gyfer niwed yn y dyfodol) yn cael ei osgoi. Y rheswm, yn aml, yw bod y cam gweithredu a fyddai wedi ysgogi'r niwed wedi'i atal rhag digwydd neu wedi'i osgoi.
- 3.19 Er enghraifft, cafodd cyflenwi'r feddyginiaeth anghywir ei osgoi drwy gam ychwanegol neu drwy ymyrraeth gan rywun arall, ac felly ni ddigwyddodd. Y gwahaniaeth rhwng achos y bu ond y dim iddo ddigwydd a digwyddiad lle gallai niwed ddigwydd eto yw bod y camau, mewn digwyddiad lle gallai niwed ddigwydd eto, wedi digwydd ond nad yw'r niwed wedi dod i'r amlwg eto.
- 3.20 Fodd bynnag, oherwydd eu natur ddifrifol a'r angen i ddysgu o ddigwyddiadau o'r fath a'u hatal rhag digwydd eto, dylid rheoli achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd drwy ddilyn y prosesau adrodd arferol²².
- 3.21 Er nad yw'r ddyletswydd gonestrwydd statudol o dan y Ddeddf yn cael ei sbarduno gan achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd, dylai ymarferwyr unigol fod yn gyfarwydd â'r canllawiau ar achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a ddarperir gan eu cyrff rheoleiddio proffesiynol. Er enghraifft, mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth²³ a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol²⁴ yn darparu arweiniad a

²² NHS Delivery Unit (2023) Patient Safety incidents. <https://du.nhs.wales/patient-safety-wales/patient-safety-incidents/>

²³ NMC and GMC (2019) Openness and honesty when things go wrong: the professional duty of candour <https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/nmc-publications/openness-and-honesty-professional-duty-of-candour.pdf>

²⁴ GMC (2023) Being open and honest with patients in your care, and those close to them, when things go wrong <https://www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-guidance-for-doctors/candour---openness-and-honesty-when-things-go-wrong/being-open-and-honest-with-patients-in-your-care-and-those-close-to-them-when-things-go-wrong#paragraph-21>

chymorth i ymarferwyr ynghylch pryd a sut i siarad â defnyddwyr gwasanaethau am achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd.

Niwed sy'n digwydd i Ddefnyddwyr Gwasanaethau wrth aros am ddiagnosis neu ofal gan y GIG

- 3.22 Ers y pandemig SARS-CoV-2 byd-eang yn 2020 mae pwysau sylweddol wedi bod ar adnoddau yn y GIG ac, o'r herwydd, mae llawer mwy o gleifion yn aros am ddiagnosis, triniaethau a gofal ar restrau aros y GIG. Bydd angen bod yn ofalus wrth ystyried niwed sy'n digwydd tra bod defnyddiwr gwasanaeth yn aros am driniaeth. Bydd pob cam ar lwybr clinigol yn golygu amser aros, a allai fod yn hirach ar adegau o bwysau sylweddol ar wasanaethau.
- 3.23 Os bydd defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef niwed tra'i fod ar restr aros, gallai hyn **o bosibl** sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd.
- 3.24 Er mwyn i ddefnyddiwr gwasanaeth fod ar restr aros am ddiagnosis neu driniaeth rhaid cael atgyfeiriad fel arfer, sy'n cynnwys asesiad a phenderfyniad clinigol. Wrth osod y defnyddiwr gwasanaeth ar y rhestr aros bydd rhywfaint o ystyriaeth wedi bod o'r risg debygol o aros, a lles gorau'r defnyddiwr gwasanaeth yng nghyd-destun y gwasanaeth sy'n bodoli. Felly, ystyrir bod y defnyddiwr gwasanaeth o dan ofal ymgynghorydd neu feddyg gofal sylfaenol ac yn aml mae'r rhestr aros yn cael ei monitro'n weithredol, sy'n cynnwys elfen o fewnbwn a barn glinigol sydd hefyd yn gyfystyr â darparu gofal iechyd.
- 3.25 Fodd bynnag, yr elfennau allweddol eraill y mae'n rhaid eu bodloni cyn i'r ddyletswydd gael ei sbarduno yw bod y defnyddiwr gwasanaeth y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu neu wedi'i ddarparu iddo gan y corff wedi dioddef "canlyniad andwyol" a bod y ddarpariaeth gofal iechyd yn ffactor a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth dioddef y canlyniad hwnnw neu y gall fod wedi bod yn ffactor. Mae defnyddiwr gwasanaeth i'w drin fel pe bai wedi dioddef canlyniad andwyol os yw'n profi unrhyw niwed "annisgwyl neu anfwriadol" sy'n fwy nag ychydig o niwed neu os yw'r amgylchiadau'n golygu y gallai brofi niwed o'r fath.
- 3.26 Enghraifft o hyn yn ymarferol yw pan fo defnyddiwr gwasanaeth ag angina yn cael ei roi ar restr aros a reolir yn dda i gael llawdriniaeth ddargyfeiriol ar y galon ac yn dioddef trawiad ar y galon wrth aros. Yn y senario hon mae'n bosibl na fydd y ddyletswydd yn gymwys os digwyddodd y niwed o ganlyniad i'r dirywiad naturiol yng nghyflwr y claf. Y rheswm am hyn yw na fyddai datblygiad y clefyd ynddo'i hun o reidrwydd yn sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd a byddai'r risg sy'n deillio o'r datblygiad hwnnw fel arfer yn cael ei drafod gyda'r defnyddiwr gwasanaeth. Nid yw hyn yn golygu na ddylai'r defnyddiwr gwasanaeth gael ymddiheuriad ac esboniad o'r hyn sydd wedi digwydd fel mater o arfer gorau. Fodd bynnag, pe bai defnyddiwr gwasanaeth wedi'i gollu oddi ar y rhestr drwy amryfusedd neu wedi cael ei flaenoriaethu'n anghywir, gan greu oedi gormodol a esgorodd ar y canlyniad andwyol, fe allai'r ddyletswydd fod yn gymwys.

- 3.27 Dylid rheoli rhestrau aros yn weithredol, a dylid gwneud penderfyniadau clinigol newydd pan fydd y risg hysbys yn newid, er mwyn lleihau niwed i'r defnyddiwr gwasanaeth. Ni fyddai ymddangosiad risg sy'n hysbys i'r defnyddiwr gwasanaeth ac i'r clinigydd, ynddo'i hun, yn sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd o reidrwydd.
- 3.28 Bwriad cychwyn dyletswydd gonestrwydd yw ymateb i ddefnyddiwr gwasanaeth neu berson sy'n gweithredu ar ei ran, mewn ffordd agored a thryloyw pan fydd pethau wedi mynd o chwith, neu efallai wedi mynd o chwith, yn eu gofal. Nid yw'r camau hyn, fel y cyfeiriwyd yn gynharach, yn gyfaddefiad o atebolrwydd nac yn groes i ddyletswydd statudol.
- 3.29 Pan fydd mwy nag un corff GIG yn cymryd rhan yn y llwybr gofal, anogir yn gryf bod y cyrff GIG sy'n rhan o'r prosiect yn cydweithio mewn partneriaeth i roi'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd ar waith a'u bod yn cymryd rhan lawn yn y broses. Gweler Pennod 6

Pennod 4 – Y Weithdrefn Gonestrwydd

- 4.1 Mae Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd yn rhagnodi'r camau y mae'n **rhaid** i gorff GIG eu cymryd pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno.
- 4.2 Mae angen darllen yr adran hon o'r canllawiau ar y cyd â'r Rheoliadau hynny, a siart llif y weithdrefn sydd i'w gweld yn **Atodiad C**.

Hysbysu

- 4.3 Mae'r Ddeddf a Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff GIG roi hysbysiad "**wrth ddod yn ymwybodol gyntaf**" fod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod i rym, ac i beidio ag aros am ganfyddiadau unrhyw ymchwiliad cychwynnol cyn rhoi hysbysiad.
- 4.4 Mae'n bwysig nodi bod rheoliad 4 o Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff GIG hysbysu'r **defnyddiwr gwasanaeth** sydd wedi dioddef canlyniad andwyol hysbysadwy neu berson sy'n gweithredu ar ei ran (yn Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd²⁵ gelwir y person hwn yn "berson perthnasol").
- 4.5 Gellir rhoi gwybod i'r person sy'n gweithredu'n gyfreithlon ar ran y defnyddiwr gwasanaeth, os yw'r defnyddiwr gwasanaeth:
- wedi marw.
 - yn 16 oed neu'n hŷn ac nad oes ganddo'r galluedd (o fewn ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005) mewn perthynas â'r mater; neu os yw

²⁵ Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru (2023) Rheoliadau Gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023.

- o dan 16 oed ac nad yw'n gymwys i wneud penderfyniad mewn perthynas â'i ofal neu ei driniaeth (Cyfeiriwch hefyd at Bennod 7)

- 4.6 Mae Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd hefyd yn caniatáu i ddefnyddiwr gwasanaeth â galluedd enwebu person y mae'n ymddiried ynddo i weithredu ar ei ran mewn perthynas â'r ddyletswydd gonestrwydd, gan gydnabod na fydd pawb y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt yn dymuno ymwneud â'r broses yn bersonol.
- 4.7 Mae'n bwysig sicrhau bod gofynion Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR²⁶ y DU) yn cael eu dilyn bob amser wrth gyrchu, prosesu a datgelu gwybodaeth defnyddwyr gwasanaethau. Mewn achosion lle mae cynrychiolydd yn gweithredu ar ran defnyddiwr gwasanaeth sydd â galluedd, dylid cael caniatâd ysgrifenedig i'r cynrychiolydd weithredu ac adolygu hyn drwy gydol y broses. Mae hyn hefyd yn unol â Rheoliadau 2011.

Beth yw ystyr 'dod yn ymwybodol gyntaf'?

- 4.8 Mae'r gofyniad i hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth / y person sy'n gweithredu ar ei ran pan ddeuir yn ymwybodol gyntaf fod y ddyletswydd wedi'i sbarduno yn golygu y dylai'r corff GIG fyfyrto a gwneud penderfyniad ystyriol ynghylch a yw'r amodau fel y'u nodir yn rhan 4 uchod wedi'u bodloni. Ar ôl i'r corff GIG farnu bod yr amodau fel y'u nodir yn rhan 4 uchod wedi'u bodloni, byddai hyn yn cael ei ystyried fel y pwynt lle mae y corff GIG yn '**dod yn ymwybodol gyntaf**' bod y ddyletswydd wedi'i sbarduno.
- 4.9 Dyma'r dyddiad cychwyn ar gyfer gweithdrefn y ddyletswydd gonestrwydd (y cyfeirir ato yn y Canllawiau hyn a'r atodiadau fel "dyddiad cychwyn y weithdrefn"), y mae'n **rhaidd** ei ddilyn, gan ddechrau â'r hysbysiad "uniongyrchol" i'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran.
- 4.10 Dylai fod gan bob corff GIG broses gadarn a chyson ar waith i benderfynu a yw canlyniadau andwyol (digwyddiadau) yr adroddir amdanynt yn sbarduno'r ddyletswydd ai peidio. **Nid yw hyn yn golygu bod Cyrff GIG yn ymchwilio i amgylchiadau'r digwyddiad a adroddwyd cyn gwneud y penderfyniad hwn.** Bydd angen rhywfaint o fyfyrto a gwneud penderfyniadau ar ran y corff GIG cyn penderfynu a yw'r ddyletswydd wedi'i sbarduno, ond nid ymchwiliad manwl. Mae'n bwysig bod trefniadau ar waith i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar ran Cyrff GIG i sicrhau bod y corff GIG yn cael ei hysbysu am unrhyw achos o sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd (gweler Pennod 6).
- 4.10 Nid yw defnyddio system Datix Cymru yn orfodol. Fodd bynnag, mae'r gwaith o gyflwyno a datblygu hwn wedi'i gynllunio i gefnogi'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd ac mae ar gael am ddim i bob corff GIG.

²⁶ Llywodraeth y DU. Deddf Diogelu Data 2018 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents>

- 4.11 O ganlyniad, rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o Gyrrff GIG yn hysbysu am ddigwyddiadau drwy system Datix Cymru, ac mae hynny'n cael ei annog. Mae nodyn atgoffa yn y system i ofyn i'r rhai sy'n llenwi ac/neu'n adolygu'r adroddiad am y digwyddiad a yw dyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno ai peidio ac i gofnodi lefel y niwed. Mae'r system hefyd yn hwyluso'r broses o ddogfennu'r rhesymau pam na sbardunwyd y ddyletswydd.
- 4.13 Bydd angen i gyrrff GIG ddatblygu system ar gyfer cynnal yr 'adolygiad' yn lleol o'r digwyddiadau hynny yr adroddwyd yn wreiddiol eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd, h.y. pan dybir bod yr amodau a nodir ym mhwynt 4.13 uchod wedi'u bodloni. Gallai hyn, er enghraifft, fod mor syml â nodi y cytunwyd, ar ôl adolygu ac ystyried, nad yw'r trothwy ar gyfer mwy nag ychydig o niwed wedi'i fodloni neu nad oedd y niwed a ddioddefodd yr unigolyn yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth gofal iechyd.
- 4.14 **Felly, dyddiad cychwyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd yw'r dyddiad y daw corff GIG yn ymwybodol gyntaf o ganlyniad andwyol hysbysadwy.**
- 4.15 Pan wneir yr hysbysiad "uniongyrchol" yn hwyrach na 30 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y daw'r corff GIG yn ymwybodol gyntaf o ganlyniad andwyol hysbysadwy, sef dyddiad cychwyn y weithdrefn gonestrwydd, dylid darparu esboniad a dylid cofnodi'r rheswm dros yr hysbysiad gohiriedig yn yr adroddiad am y digwyddiad. Byddai hyn yn ddigwyddiad prin ond gallai ddigwydd pan fo dyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno gan adolygiad achos neu adolygiad archwilydd meddygol.
- 4.16 **Nid yw hyn yn golygu bod gan y corff GIG gyfnod o 30 diwrnod fel mater o drefn i ddarparu'r hysbysiad 'uniongyrchol'.** Mae'r Ddeddf yn nodi'n glir bod rhaid i'r corff GIG gymryd pob cam rhesymol i ddarparu'r hysbysiad "uniongyrchol" cyn gynted ag y byddant yn dod yn ymwybodol o'r digwyddiad andwyol hysbysadwy.
- 4.17 Gan ystyried sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol, byddai'r "gyfres digwyddiadau" yn digwydd fel a ganlyn:
- defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef niwed sy'n gysylltiedig â thriniaeth (neu a all fod yn gysylltiedig â hynny).
 - mae'r staff yn rhydd i ymddiheuro, esbonio i'r defnyddiwr gwasanaeth/y teulu beth sydd wedi digwydd, er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau gonestrwydd proffesiynol.
 - maent yn adrodd am y "digwyddiad" (gan ddefnyddio Datix Cymru yn y rhan fwyaf o achosion).
 - Mae Datix Cymru yn eu hatgoffa i ystyried yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno.
 - Os bydd y person sy'n cofnodi'r digwyddiad yn teimlo bod y ddyletswydd wedi'i sbarduno wrth gofnodi ym modiwl digwyddiadau Datix Cymru bod niwed cymedrol neu fwy wedi'i achosi neu o bosibl wedi'i achosi, bydd adran 'bod yn agored ac yn dryloyw' yn agor yn awtomatig gan alluogi'r cofnodydd i gofnodi

rhagor o wybodaeth yn unol â'r gofyniad ar gyfer gweithdrefn y ddyletswydd gonestrwydd.

- Os penderfynir nad yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno, er bod niwed cymedrol neu fwy wedi'i achosi, neu o bosibl wedi'i achosi, dylid cadw nodyn o'r rhesymau dros ddod i benderfyniad o'r fath yn yr adroddiad am y digwyddiad yn Datix Cymru.
- Caiff pob digwyddiad ei adolygu'n fewnol gan y corff GIG (ac eithrio pan fo gofal iechyd yn cael ei ddarparu gan bartner sy'n cael ei gomisiynu neu ei gynnal).
- Yn achos y rhai y cytunir bod yr amodau ar gyfer bodloni'r ddyletswydd gonestrwydd (a nodir ym Mhennod 2 uchod) wedi'u bodloni, cychwynnir hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth.

Sut i hysbysu

- 4.18 Dylai'r hysbysiad i'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran fod "yn uniongyrchol"²⁷ sy'n golygu cyfathrebu ar y ffôn, cyfathrebu clyweledol (fel galwad fideo) neu gyfathrebu wyneb yn wyneb. Ystyrir y byddai llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn synnu o gael llythyr drwy'r post yn rhoi gwybod iddynt bod y ddyletswydd wedi'i sbarduno ac mae'n bosibl y byddai ganddynt gwestiynau/pryderon y byddai angen eu hateb neu eu lleddfu ar unwaith. Nid yw gadael negeseuon llais, chwaith, yn cael ei ystyried yn briodol wrth wneud y cyswllt "uniongyrchol". Mae profiad o sesiynau rhanddeiliaid diweddar hefyd yn dangos mai dull "uniongyrchol" sydd fwyaf priodol ar gyfer y cyswllt cyntaf.
- 4.19 Fodd bynnag, mae gan Gyrrff GIG ddisgresiwn ynghylch pa ddull o gyfathrebu "uniongyrchol" sydd fwyaf priodol. Mae'n bosibl na fydd yn bosibl yn ymarferol i gynnal cyfarfod wyneb yn wyneb â phawb y sbardunwyd dyletswydd gonestrwydd ar eu cyfer. Dylai'r corff GIG ystyried pob amgylchiad a nodi'r hyn a ffefrir gan y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran a gwneud pob ymdrech i fodloni'r rhain lle bo modd.
- 4.20 Dyma'r ffactorau y mae'n rhaid i gorff GIG eu hystyried wrth benderfynu pa ddull o hysbysu'n "uniongyrchol" sydd fwyaf priodol:
- a) difrifoldeb y niwed.
 - b) natur a chymhlethdod y canlyniad andwyol hysbysadwy. amgylchiadau personol y defnyddiwr gwasanaeth (os ydynt yn hysbys)
 - c) unrhyw gyfathrebu a wnaed eisoes â'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran
 - d) unrhyw ddull y gwyddys bod y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran yn ei ffafrio. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle gallai fod angen cymorth ar y defnyddiwr gwasanaeth, er enghraifft os y Gymraeg yw iaith gyntaf y defnyddiwr gwasanaeth neu ei deulu, neu pan fo angen dehonglydd BSL neu gyfieithydd iaith dramor.

²⁷ Yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd.

- 4.21 Mewn rhai sefyllfaoedd, gallai'r hysbysiad cychwynnol dros y ffôn fod yn ddigonol; mewn achosion mwy cymhleth mae'n debygol y byddai'n fwy priodol trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran.
- 4.22 Rhaid i'r corff GIG gymryd camau rhesymol i sefydlu'r dull cyfathrebu a ffefrir. Rhaid iddo hefyd gymryd camau rhesymol i sicrhau ei fod yn cyfathrebu mewn modd sy'n golygu y bydd y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran yn ei ddeall²⁸. Mae Cyrrff GIG yn ddarostyngedig i ofnion Safonau'r Gymraeg fel y'u nodir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018.²⁹
- 4.23 Cydnabyddir mewn rhai achosion na fydd hi efallai'n hysbys ar y dechrau pa ddull cyfathrebu sy'n cael ei ffafrio na pha ddull cysylltu y mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn ei ffafrio; efallai y bydd angen cysylltu dros y ffôn i ddechrau er mwyn cael sgwrs ynghylch pa gamau y gellid bod angen eu cymryd i sicrhau bod y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd yn cael ei dilyn.

Pwy sy'n hysbysu a diben hysbysu

- 4.24 Bydd angen i'r corff GIG bennu'r person neu'r personau mwyaf priodol i roi hysbysiad "yn uniongyrchol" i ddechrau i'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran. Bydd angen i'r corff GIG ystyried pwy yw'r person neu'r personau mwyaf priodol i roi hysbysiad "yn uniongyrchol" i ddechrau i'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran.
- 4.25 Diben pennaf y cyswllt cychwynnol â'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran yw cydnabod yr hyn sydd wedi digwydd a chynnig ymddiheuriad ystyrllon, personoledig am y niwed y maent wedi'i brofi neu y gallent ei brofi eto a rhoi cyngor ar yr hyn fydd yn digwydd nesaf. (Gweler Atodiad E ac adnoddau proffesiynol eraill ar gyfleu ymddiheuriad.)
- 4.26 Rhaid i'r corff GIG enwebu rhywun sydd â digon o brofiad a gwybodaeth am y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd a dealltwriaeth ohoni er mwyn gallu cynorthwyo'r defnyddiwr gwasanaeth/ei gynrychiolydd ag unrhyw gwestiynau a allai godi wrth iddynt fynd drwy'r broses; dyma'r "pwynt cyswllt enwebedig".
- 4.27 Mae rheoliad 4 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yn rhagnodi'r hyn y mae'n **rhaid** ymdrin ag ef yn yr hysbysiad "uniongyrchol" cychwynnol.
- 4.28 Rhaid i'r person sy'n gwneud y cyswllt cyntaf â'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran wneud y canlynol:
- esbonio'n glir pa wybodaeth sydd ganddynt hyd yma am yr hyn sydd wedi digwydd.

²⁸ Gweler rheoliad 7 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd.

²⁹ Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 7\) 2018](https://legislation.gov.uk) (legislation.gov.uk)

- amlinellu pam y mae'r corff GIG o'r farn fod y ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno.
- rhoi ymddiheuriad. Ceir canllawiau ar sut mae rhoi ymddiheuriad personoledig ac ystyrion isod ac yn Atodiad E.
- rhoi'r manylion cyswllt y pwynt cyswllt enwebedig ar gyfer y corff GIG. Y pwynt cyswllt enwebedig yw'r person y bydd y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran yn cysylltu ag ef/hi os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau am y broses dyletswydd gonestrwydd.
- rhoi esboniad o'r camau a'r ymholiadau pellach y bydd y corff GIG yn eu cymryd i ymchwilio i amgylchiadau'r canlyniad andwyol hysbysadwy. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu y bydd y corff GIG (neu lle mae gwasanaethau wedi'u comisiynu gan ddarparwr annibynnol yng Nghymru, y darparwr) yn cymryd o dan Reoliadau 2011. Ystyrir yr ymchwiliad i'r canlyniad andwyol hysbysadwy ymhellach ym Mhennod 5 .
- rhoi i'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran fanylion unrhyw wasanaethau neu ffynonellau cymorth y mae'r corff GIG yn credu'n rhesymol y gallent fod o gymorth iddynt, gan ystyried eu hanghenion. Mae **Atodiad D** yn nodi cysylltiadau defnyddiol ar gyfer opsiynau cymorth.
- Dogfennu hyn yng nghofnod gofal y defnyddiwr gwasanaeth ac yn Datix Cymru.

4.29 Mae rheoliad 4 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n rhoi'r hysbysiad "uniongyrchol" roi esboniad i'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran os yw'r dyddiad yr hysbysiad "uniongyrchol" yn hwyrach na 30 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y daeth y corff GIG yn ymwybodol gyntaf o'r canlyniad andwyol hysbysadwy. Diben hyn yw esbonio unrhyw oedi a allai ddigwydd cyn hysbysu, er enghraifft yn dilyn adolygiad ôl-weithredol o achos. O dan y gyfraith, mae'n ofynnol i'r corff GIG roi'r hysbysiad "uniongyrchol" pan ddaw i wybod gyntaf am y canlyniad andwyol hysbysadwy, ac felly nid yw'n golygu bod gan Gyrrff GIG 30 diwrnod gwaith o'r dyddiad y digwyddodd y canlyniad andwyol hysbysadwy i roi'r hysbysiad "uniongyrchol".

4.30 Mae hefyd yn arfer da sefydlu beth mae'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran yn ei ddeall am yr hyn sydd wedi digwydd. Dylai'r person sy'n rhoi gwybod ar ran y corff GIG hefyd ddangos ei fod yn deall yr amgylchiadau a'r effaith ar y person dan sylw. Ni ddylent gwestiynu maint y niwed a ddiodefodd y person yr effeithiwyd arno nac amgylchiadau'r 'digwyddiad' fel y mae'r defnyddiwr gwasanaeth wedi'i brofi.

4.31 Gallai hyn fod yn fan cychwyn ar gyfer sgysiau hirach â'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran, a bydd yn bwysig i bawb dan sylw bod y cyswllt cyntaf hwn yn cael ei gynnal yng ngwir ysbryd y ddyletswydd; yn agored, gydag empathi ac yn ddidwyll.

Pethau i'w hystyried – Cyn i'r hysbysiad "uniongyrchol" ddigwydd:

- a oes rhywun o'r corff GIG wedi bod mewn cysylltiad eisoes â'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran? Gall hyn fod yn gysylltiedig â'r digwyddiad hwn neu agweddau eraill ar ei ofal iechyd.

- pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal eisoes neu pa wybodaeth sydd wedi'i chyfnewid eisoes (os o gwbl)?
- beth sy'n hysbys am yr hyn sydd wedi digwydd a lefel y niwed a gafwyd neu y gellid ei gael?
- a yw'r dull cyfathrebu a ffeirir yn hysbys? e.e. geiriol, ysgrifenedig, electronig; argymhellir gwirio unrhyw gofnodion blaenorol yn Datix; porth clinigol Cymru, PAS Cymru neu gofnodion gofal.
- pwy fydd y pwynt cyswllt enwebedig yn y corff GIG yn dilyn yr hysbysiad cychwynnol?
- pa gymorth sydd ar gael i'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran, i'w cynorthwyo yn ystod y broses hysbysu ac wedyn?
- sicrhau bod y cyfathrebu'n digwydd mewn modd y gall y defnyddiwr gwasanaeth neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran ei ddeall, gan gynnwys Cymraeg os dyna'u hiaith gyntaf.
- Ystyried lleoliad y sgwrs os yw am fod wyneb yn wyneb neu drwy alwad fideo, i sicrhau bod preifatrwydd a chyfrinachedd yn cael eu cynnal.
- dylid cydnabod hefyd y gallai defnyddiwr gwasanaeth fod â nifer o gwestiynau yn ymwneud â'i ofal ac y gallai fod yn ddoeth i aelod o'r tîm clinigol fod yn bresennol.

Hysbysu'n ysgrifenedig wedyn

- 4.33 Yn dilyn yr hysbysiad "uniongyrchol", mae rheoliad 5 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff GIG gymryd pob cam rhesymol i ysgrifennu at y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran (oni bai ei fod wedi nodi nad yw'n dymuno cymryd rhan yn y broses gonestrwydd) o fewn pum diwrnod wedi diwrnod yr hysbysiad "uniongyrchol". Mae hysbysu'n ysgrifenedig yn cynnwys hysbysu drwy e-bost.
- 4.34 Nod yr hysbysiad ysgrifenedig yw cadarnhau'n ysgrifenedig yr hyn a drafodwyd yn yr hysbysiad "uniongyrchol". Diben hyn yw cynorthwyo dealltwriaeth y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar eu rhan, a hefyd ddarparu cofnod i'r corff GIG o'r hyn sydd wedi'i drafod.
- 4.35 Felly, rhaidd i'r hysbysiad ysgrifenedig gynnwys:
- disgrifiad sy'n esbonio'n glir pa wybodaeth sy'n hysbys hyd yn hyn ynglŷn â'r hyn a ddigwyddodd
 - ailadrodd yr ymddiheuriad geiriol
 - yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr hysbysiad uniongyrchol, sydd fel a ganlyn:
 - y rheswm pam y mae'r corff GIG o'r farn bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno
 - enw a manylion cyswllt y person yn y corff GIG a enwebwyd fel pwynt cyswllt ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran mewn perthynas â'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd
 - esboniad o'r camau gweithredu y bydd y corff cyfrifol neu'r darparwr yn eu cymryd, a'r ymholiadau pellach y bydd y corff cyfrifol neu'r darparwr yn eu cynnal, i ymchwilio i amgylchiadau'r canlyniad andwyol

hysbysadwy, gan gynnwys unrhyw gamau sydd i'w cymryd o dan Reoliadau 2011

- ailadrodd y cynnig o fanylion gwasanaethau neu gymorth perthnasol
 - os yw'r hysbysiad "uniongyrchol" wedi'i wneud yn hwyrach na 30 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y daeth corff GIG yn ymwybodol gyntaf o'r canlyniad andwyol hysbysadwy, esboniad o'r rheswm dros yr oedi
- Dogfennu hyn yn Datix Cymru.

4.36 Dylid ystyried personoli'r llythyr hysbysu drwy roi llofnod mewn llawysgrifen. Awgrymwyd yn ystod sesiynau ffocws gydag aelodau'r cyhoedd bod llofnod wedi'i ysgrifennu â llaw yn cael effaith gadarnhaol pan fydd ymddiheuriad o'r math hwn yn cael ei roi.

4.37 **Rhaid** i'r corff GIG gymryd pob cam rhesymol i anfon yr hysbysiad ysgrifenedig at y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran o fewn **pum niwrnod gwaith** ar ôl dyddiad yr hysbysiad "uniongyrchol"

4.38 Mae'n bwysig cydnabod bod cyfathrebu araf neu wael yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran yn chwilio am wybodaeth mewn ffordd wahanol, fel cwyno neu gymryd camau cyfreithiol. Gall hefyd olygu na fyddant yn teimlo bod y broses wedi bod yn agored ac yn onest o'r cychwyn cyntaf.

Yr Ymddiheuriad

4.39 Mae ymddiheuro mewn ffordd ystyrion a phersonoledig yn rhan allweddol o'r broses hysbysu "uniongyrchol". Mae **Atodiad E** yn rhoi rhagor o wybodaeth am ymddiheuro fel rhan o weithdrefn y ddyletswydd gonestrwydd.

4.40 Mae ymddiheuro'n ystyrion mewn ffordd bersonoledig yn gallu bod yn ffordd ymarferol o adfer ymddiriedaeth. Gall ymddiheuro mewn ffordd ystyrion, ddiwyll gyda dealltwriaeth fod yn effeithiol ac yn bwerus ac mae'n hanfodol i bawb dan sylw pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno, gan gynnwys y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran, a'r staff sy'n gofalu amdano. Ni ddylid diystyru'r effaith ar bawb dan sylw pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno. I'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran, ymddiheuro yw'r cam pwysicaf y gall unrhyw unigolyn neu sefydliad ei gymryd fel arfer, ac mae'n bwysig bod ymddiheuriad amserol yn digwydd yn unol â'r rheoliadau.

4.41 Mae pobl sy'n teimlo nad ydynt wedi cael gwybod mewn ffordd agored ac onest o'r dechrau yn fwy tebygol o deimlo bod y niwed maent wedi'i ddioddef wedi'i wneud yn waeth, a gall hyn arwain at gollu ymddiriedaeth yn eu darparwr gofal iechyd. Gall hyn arwain at deimladau o ddieter ac achosi i'r berthynas chwalu. Gall hefyd olygu bod camau pellach yn cael eu cymryd.

- 4.42 Cydnabyddir y gall fod camargraff a chamddealltwriaeth fod ymddiheuriad yn gyfystyr â derbyn y bai, beiusrwydd neu hyd yn oed atebolrwydd cyfreithiol³⁰.
- 4.43 Nid yw hyn yn wir, ac ni ddylai esgor ar unrhyw dybiaeth o'r fath na llesteirio neu oedi'r cynnig o ymddiheuriad.
- 4.44 Diffinnir “ymddiheuriad” yn rheoliad 2 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd fel a ganlyn:
- ymddiheuriad yw mynegiant o dristwch neu edifeirwch mewn cysylltiad â'r canlyniad andwyol hysbysadwy.*
- 4.45 Mae rheoliad 12 yn nodi'n benodol nad yw ymddiheuriad neu unrhyw gam arall a gymerir yn unol â'r weithdrefn gonestrwydd yn gyfystyr â chyfaddefiad o esgeulustod neu o dorri dyletswydd statudol.
- 4.46 Mae rhoi ymddiheuriad yn cydnabod yr hyn sydd wedi digwydd, neu ar y cam hwn yr hyn y gwyddys ei fod wedi digwydd, ac yn rhoi sicrwydd bod y mater yn cael ei gymryd o ddifrif ac y manteisir ar gyfleoedd dysgu i atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol. Mae'n bwysig sicrhau bod yr ymddiheuriad yn cwmpasu'r hyn sy'n hysbys bryd hynny heb ddyfalu neu gynnwys rhagdybiaethau am yr hyn a allai fod wedi digwydd neu a allai fod wedi achosi'r digwyddiad. Mae'n ddefnyddiol cyfaddef yn y cyfnod cynnar hwn y gallai llawer fod yn anhysbys ond fod rhagor o fanylion yn debygol o ddod yn gliriach yn ystod yr ymchwiliad sy'n dilyn.
- 4.47 Rydym yn cydnabod y gall staff weithiau ei chael yn anodd ymddiheuro pan fydd niwed wedi digwydd neu pan allai ddigwydd rywbryd yn y dyfodol. Efallai na fyddant yn sicr a ydyn nhw'n cael ymddiheuro ac efallai y byddant yn poeni na fydd amseriad yr ymddiheuriad yn iawn, neu y byddant yn gwneud pethau'n waeth, yn enwedig gan y gallai'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran fod yn flin ac yn ypsét, yn naturiol. Nod **Atodiad E** yw darparu canllawiau i gynorthwyo staff yn hyn o beth.
- 4.48 Mae'n arfer da cofnodi'r ymddiheuriad llafar yng nghofnod gofal y claf. Mae hyn yn golygu y bydd y tîm clinigol cyfan yn gwybod pan fydd ymddiheuriad wedi'i roi, a gall osgoi dyblygu.

Hysbysu am ganlyniadau ymholiadau pellach

- 4.49 Mae rheoliad 6 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff GIG hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran am ganlyniadau unrhyw ymholiadau pellach (ymchwiliadau) a gynhaliwyd gan y corff GIG y gellid bod wedi cyfeirio atynt yn yr hysbysiad “uniongyrchol”. Deallir mai'r ymholiadau hyn yw'r ymchwiliad sydd i'w gynnal gan y corff GIG.

³⁰ Deddf lawndal 2006 adran 2. <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/29/contents>

- 4.50 Yn ymarferol, yn y rhan fwyaf o achosion, ar ôl i'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran gael ei hysbysu, bydd y corff GIG yn ymchwilio i'r amgylchiadau pan ddaeth y ddyletswydd gonestrwydd i rym, yn unol â darpariaethau Rheoliadau 2011. Bydd Cyrff GIG yn gyfarwydd â'r broses hon gan ei bod yn llywio'r ffordd yr ymchwilir i ddigwyddiadau ar hyn o bryd.
- 4.51 Bydd cyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran o dan ddarpariaethau Rheoliadau 2011, sy'n cynnwys gofyniad i amlinellu canlyniad ymchwiliadau yn ysgrifenedig, hefyd yn bodloni gofynion rheoliad 6 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd, gan osgoi dyblygu petai Rheoliadau 2011 yn gymwys.
- 4.52 Fel y nodir isod ym Mhennod 5, nid yw Rheoliadau 2011 yn gymwys i'r holl Gyrrff GIG – er enghraifft, nid ydynt yn gymwys i Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG. Ar ben hynny, efallai y bydd amgylchiadau eithriadol pan na fydd Rheoliadau 2011 yn gymwys. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai Cyrff GIG sicrhau bod ganddynt drefniadau ar waith i'w galluogi i gydymffurfio â'r gofynion hysbysu yn rheoliadau 4, 5 a 6.

Cyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran

- 4.53 Mae rheoliad 7 yn rhagnodi'r hyn y mae'n rhaid i gorff GIG ei wneud os na all gysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth neu berson sy'n gweithredu ar ei ran i wneud y canlynol:
- (i) rhoi'r hysbysiad "uniongyrchol" (rheoliad 4),
 - (ii) rhoi'r hysbysiad ysgrifenedig (rheoliad 5),
 - (iii) hysbysu am ganlyniadau ymholiadau pellach (rheoliad 6),
- neu os yw'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran yn gwrthod cymryd rhan mewn cyfathrebu â'r corff GIG.
- 4.54 Os nad yw'r corff GIG, ar ôl cymryd camau rhesymol, yn gallu cysylltu, rhaid cofnodi'r ymdrechion i gysylltu fel rhan o'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chadw yn rhinwedd rheoliad 9 (Cofnodion), gweler y canllawiau ar gadw cofnodion isod. Yn ddelfrydol, dylid cofnodi'r wybodaeth yn y cofnod digwyddiad, sef Datix Cymru y rhan fwyaf o amgylchiadau.
- 4.55 Os bydd y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran yn rhoi gwybod nad yw'n dymuno cyfathrebu â'r corff GIG na derbyn gwybodaeth ganddo, rhaid cofnodi hyn yn glir hefyd yn unol â rheoliad 9 a dylid parchu dymuniadau'r unigolyn. Unwaith eto, byddai'n arfer da cofnodi hyn ar y cofnod digwyddiad (Datix Cymru), a hefyd yn nodiadau gofal y defnyddiwr gwasanaeth.
- 4.56 Yn unol â rheoliad 7(3)(b) o'r Rheoliadau Gonestrwydd nid yw'n ofynnol i Gyrrff GIG ddarparu gwybodaeth i neu gyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran yn yr amgylchiadau hyn os ydynt wedi nodi nad ydynt am gyfathrebu â neu dderbyn gwybodaeth gan y corff GIG. Fodd bynnag, rhaid

i'r adolygiad o'r digwyddiad a arweiniodd at sbarduno'r ddyletswydd barhau fel y gellir dysgu gwersi a gwneud gwelliannau o ran ansawdd.

- 4.57 Dylai'r corff GIG roi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran bod modd iddo gysylltu â'r corff GIG os bydd yn newid ei feddwl am gymryd rhan yn y broses.
- 4.58 Rhaid i'r corff GIG gymryd camau rhesymol i ganfod pa ddull cyfathrebu sydd orau gan y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran a, phan fo'n rhesymol ymarferol, cyfathrebu â nhw drwy'r dull hwn.
- 4.59 Rhaid i'r corff GIG gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod unrhyw gyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran yn digwydd mewn modd y gallant ei ddeall – mae hyn yn arbennig o bwysig os oes anabledd neu os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn oedolyn neu'n blentyn neu'n berson ifanc agored i niwed.

Cymorth a Hyfforddiant

- 4.60 Mae'n bwysig cydnabod y gallai'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran gael ei effeithio'n fawr gan yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad "uniongyrchol" ac y bydd angen cymorth parhaus arnynt wrth iddynt ddod i delerau ag effaith y niwed sydd wedi digwydd neu a allai ddigwydd fel yr amlygwyd ym Mhennod 4.
- 4.61 Mae staff y GIG yn mynd i'r gwaith i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r rheini y mae angen gofal a thriniaeth arnynt. Pan fydd defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef canlyniad andwyol a bod y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno, mae'n bwysig cydnabod y bydd effaith hefyd ar staff sy'n ymwneud â gofalu am y defnyddiwr gwasanaeth ac y gallai fod angen cymorth arnynt.
- 4.62 Mae rheoliad 8 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yn nodi'r gofynion mewn perthynas â hyfforddiant a chymorth.
- 4.63 Y gofynion yw rhoi hyfforddiant a chanllawiau perthnasol i'r holl staff sy'n ymwneud â:
- darparu gofal iechyd;
 - ymchwilio i ganlyniadau andwyol hysbysadwy neu eu rheoli;
 - unrhyw aelodau perthnasol eraill o staff sy'n ymwneud â chyflawni neu arfer swyddogaethau mewn perthynas â gweithdrefn y ddyletswydd gonestrwydd.
- 4.64 Yn ogystal â'r holl staff clinigol, byddai hyn yn ymarferol yn cynnwys uwch staff (gan gynnwys staff ar lefel y Bwrdd) sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli canlyniadau andwyol yn eu sefydliadau, y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ymchwilio i ganlyniadau andwyol hysbysadwy, eu rheoli a/neu hysbysu amdanynt, ac unrhyw staff eraill sy'n delio â chwynion a phryderon. Ar lefel gofal sylfaenol, byddai hyn er enghraifft yn cynnwys rheolwyr practis.
- 4.65 Bydd modiwlau hyfforddi yn cael eu datblygu'n genedlaethol drwy gydgyssylltu a byddant ar gael ar blatfformau digidol i holl staff y GIG gan gynnwys darparwyr

gofal sylfaenol. Mae'r ddogfen ganllawiau hon a'r atodiadau iddi yn darparu'r holl ddogfennau cymorth perthnasol i helpu cyrff y GIG i gyflawni eu dyletswydd o ran sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r ddyletswydd gonestrwydd.

- 4.66 Mae Rheoliadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd hefyd yn nodi bod rhaid i'r corff GIG roi manylion am y gwasanaethau neu'r cymorth sydd ar gael i aelod o staff sy'n ymwneud â chanlyniad andwyol hysbysadwy, gan ystyried:
- yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r canlyniad andwyol hysbysadwy;
 - anghenion yr aelod o staff.
- 4.67 Bydd gan Gyrff GIG fecanweithiau ar waith a gwasanaethau cymorth lleol ar gael i gynnig y ddarpariaeth briodol o gymorth a chynhorthwy priodol i aelodau staff drwy eu Gwasanaeth Llesiant Gweithwyr/Rhaglen Iechyd Galwedigaethol/Rhaglen Cymorth i Weithwyr.
- 4.68 Yn ogystal mae nifer o wasanaethau cymorth cenedlaethol ar gael drwy wefan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)³¹, megis Iechyd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol (Canopi)³², SilverCloud³³ a'r Samariaid³⁴.
- 4.69 Bydd rheolwyr llinell lleol, goruchwylwyr clinigol gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r gweithlu a datblygu sefydliadol (gan gynnwys cydweithwyr sy'n ymwneud a lles gweithwyr ac iechyd galwedigaethol) a chynrychiolwyr undebau llafur hefyd yn gallu cyfeirio staff at wasanaethau cymorth priodol.

Cadw cofnodion

- 4.70 Mae adran 4(3)(c) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd ragnodi'r cofnodion y mae'n rhaid i Gyrff GIG eu cadw mewn perthynas â chyflawni'r ddyletswydd.
- 4.71 Mae rheoliad 9 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yn mynnu bod cyrff y GIG yn gadw cofnod ysgrifenedig cywir ar gyfer pob canlyniad andwyol hysbysadwy lle mae'r weithdrefn gonestrwydd wedi'i dilyn.
- 4.72 Rhaid i'r cofnod ysgrifenedig gynnwys pob dogfen a darn o ohebiaeth sy'n ymwneud â'r canlyniad andwyol hysbysadwy, heb fod yn gyfyngedig i:
- yr hysbysiad o'r ddyletswydd.
 - ymdrechion i gyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran.
 - unrhyw benderfyniad gan y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran i beidio â chael gwybod am faterion yn ymwneud â'r ddyletswydd gonestrwydd.

³¹ <https://aagic.gig.cymru/cefnogaeth/>

³² Canopi (Iechyd i weithwyr iechyd proffesiynol, gynt) <https://canopi.nhs.wales/cy/amdanom-ni/>

³³ SilvercloudWales. <https://nhs.wales.silvercloudhealth.com/signup/>

³⁴ Y Samariaid 2023 <https://www.samaritans.org/>

- pob dogfen sy'n ymwneud â'r adolygiad i ganfod a yw'r ddyletswydd wedi'i sbarduno a'r ymchwiliad dilynol i'r canlyniad andwyol hysbysadwy, sy'n cael ei wneud gan y corff GIG, gan gynnwys yr ymateb neu'r adroddiad interim a gyhoeddwyd o dan reoliadau 24, 26 neu 31 o Reoliadau 2011.

- 4.73 Fe'i hystyrir yn arfer da i gofnodi unrhyw benderfyniad i beidio â sbarduno'r ddyletswydd (os ystyriwyd sbarduno). Mae'n bwysig bod cofnodion cywir yn cael eu cadw i gefnogi mecanweithiau sicrhau ansawdd sydd eu hangen i nodi meysydd ar gyfer dysgu a gwella a hefyd i alluogi Cyrff GIG i gydymffurfio â'u gofynion adrodd o dan y Ddeddf sy'n cael eu hystyried yn rhan 11 isod.
- 4.74 Rhagwelir y defnyddir system Datix Cymru i adrodd a chadw cofnodion.

Pennod 5 - YR YMCHWILIAD

- 5.1 Wrth roi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno, rhaid i'r corff GIG (yn unol â rheoliadau 4(3)(e) a 5(3)(c) o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd) hefyd roi esboniad o'r camau y bydd yn eu cymryd i ymchwilio i amgylchiadau'r canlyniad andwyol hysbysadwy.
- 5.2 Yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae hyn yn golygu dilyn gweithdrefn Rheoliadau 2011 ar gyfer ymchwilio i bryderon. Mae "pwyderon" fel y'u diffinnir yn Rheoliadau 2011 yn cynnwys pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion.
- 5.3 Fodd bynnag, bydd achosion, er bod dyletswydd gonestrwydd yn gymwys, lle na fydd angen ymchwiliad o dan Reoliadau 2011. Er enghraifft, nid yw Rheoliadau 2011 yn gymwys i Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG. Byddant yn dilyn eu gweithdrefnau mewnol eu hunain ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau diogelwch cleifion.
- 5.4 Mewn perthynas ag ymchwiliad o dan Reoliadau 2011, fel sy'n wir ar hyn o bryd, rhaid i'r ymchwiliad fod yn gymesur, rhaid iddo gael ei gynnal yn agored ac yn effeithlon a dylai'r pwyslais fod ar wella ansawdd, diogelwch a rhannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu.
- 5.5 Dylid gwahodd y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran i gyfrannu at gylch gorchwyl yr adolygiad, a dylid cadw mewn cysylltiad drwy gydol y broses adolygu, os dyna a gytunwyd. Dylid ystyried beth yw dewis y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran, gan na fydd pawb yn dymuno cymryd rhan i'r graddau hyn.
- 5.6 Rhoddir gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd am ganlyniad yr adolygiad yn unol â rheoliad 24 o'r Rheoliadau hynny neu, yn achos gofal a ddarperir gan Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG neu Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru, yn unol â rheoliadau 26 a 31 pan fo'r trefniadau iawn wedi'u rhoi ar waith.

- 5.7 Dylid ystyried a ddylid rhoi gwybod i gyrff eraill e.e. cyflogwr neu reoleiddiwr proffesiynol, y gwasanaeth Archwilio Meddygol neu Grwner Ei Fawrhydi. Yn ogystal gallai'r digwyddiad gyrraedd y trothwy o ran Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol a chael ei adrodd i Lywodraeth Cymru.
- 5.8 Dylai'r staff a oedd yn ymwneud â'r driniaeth neu'r gofal a arweiniodd at sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd fod yn rhan o'r broses adolygu lle bo hynny'n briodol, a dylent gael gwybod am y canlyniad terfynol hefyd. Mae rhagor o wybodaeth am yr adolygiad ac am gadw cofnodion ar gael yn **Atodiad F**.
- 5.8 Gwnaed rhai diwygiadau i Reoliadau 2011 i'w gwneud yn gydnaws â'r ddyletswydd gonestrwydd. Nodir y prif ddiwygiadau yn rheoliad 14 o Reoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd. Eu heffaith yw sicrhau bod y ddyletswydd gonestrwydd a'r gweithdrefnau Gweithio i Wella yn gweithio'n gydnaws â'i gilydd a sicrhau nad oes dyblygu prosesau.

Pennod 6 Trefniadau Cymhleth a'r Ddyletswydd Gonestrwydd

Pan fydd mwy nag un corff GIG yn rhan o'r weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd

- 6.1 Yn aml, mae amryw o Gyrff GIG yn ymwneud ag episod o ofal lle mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno. Mae **Atodiad H** yn cynnwys enghreifftiau o astudiaethau achos er gwybodaeth.
- 6.2 Er na fydd yr holl gyrff sy'n ymwneud â darparu episod o ofal o reidrwydd yn 'gorff darparu' o ran y ddeddfwriaeth (h.y. nid oedd neu nid oes gan eu gofal y potensial i sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd) mae'n bosibl y bydd angen iddynt ddarparu gwybodaeth fel rhan o adolygiad neu drwy ddarparu cymorth i'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran. Disgwylir i bob parti gydweithredu'n llawn mewn modd agored, gan hwyluso'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd drwyddi draw a rhannu unrhyw wersi a ddysgir o ganlyniad i'r adolygiad/ymchwiliad dilynol, gan gynnwys unrhyw gamau sydd i'w cymryd er mwyn atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.
- 6.3 Efallai y bydd achlysuron hefyd lle mae sawl corff GIG yr un yn darparu gofal iechyd i un defnyddiwr gwasanaeth a phob un yn sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd ar gyfer nifer o 'ganlyniadau andwyol hysbysadwy' mewn perthynas ag un cwrs o driniaeth. Ceir enghreifftiau o astudiaethau achos yn **Atodiad H** i gyfeirio atynt.
- 6.4 Dan amgylchiadau o'r fath, byddai'n arfer dda i'r Cyrff GIG geisio cyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran i gael y caniatâd priodol, yn unol â GDPR y DU, i ymgymryd â dull cydgysylltiedig o hysbysu. Fel arall, mae risg y bydd y defnyddiwr gwasanaeth neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran yn teimlo ei fod yn cael ei lethu neu ei ddrysu gan y broses, os bydd yn

cael sawl hysbysiad. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw'r niwed yn ddifrifol, neu os oes marwolaeth wedi digwydd.

- 6.5 Y nod ddylai fod gwneud y broses mor hawdd â phosibl i'r rhai dan sylw ac, yn benodol, i'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran.
- 6.6 Fodd bynnag, mae gan bob corff GIG (corff darparu) ei gyfrifoldeb ei hun o hyd o dan Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd a rhaid iddo sicrhau y gall ddangos tystiolaeth ei fod, fel sefydliad unigol, wedi cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau hynny.
- 6.7 Os oes nifer o Gyrrff GIG yn ymwneud â'r ddyletswydd gonestrwydd, cynhelir yr ymchwiliad dilynol yn unol â'r manylion yn rheoliad 17 o Reoliadau 2011. Mae rheoliad 17 yn ymdrin â phryderon sy'n ymwneud â mwy nag un corff cyfrifol. Mae'n gosod dyletswydd ar gyrrff cyfrifol (yn amodol ar gael y cydsyniadau perthnasol gan y defnyddiwr gwasanaeth neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran) i gydweithredu at ddibenion cydlynu'r gwaith o drin ac ymchwilio i bryderon a darparu ymateb cydgysylltiedig.
- 6.8 Os bydd corff GIG yn darganfod bod digwyddiad a fyddai'n sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd wedi digwydd mewn corff GIG gwahanol, dylai'r corff GIG sy'n canfod y 'digwyddiad' roi gwybod i'r corff GIG lle digwyddodd y 'digwyddiad' fel y gall hwnnw wedyn weithredu'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd. Rhaid i'r corff GIG sy'n darganfod y 'digwyddiad' hefyd fod yn agored ac yn dryloyw gyda'r defnyddiwr gwasanaeth ynghylch yr hyn y mae wedi'i ddarganfod. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol iddo gyflawni'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd benodol; dylai'r corff GIG sy'n gyfrifol wneud hyn, h.y. y 'corff darparu' lle cafodd y ddyletswydd gonestrwydd ei sbarduno.

Gofal a ddarperir yn gymysg rhwng Cyrff GIG a Sefydliadau Gofal Cymdeithasol

- 6.9 Pan fo defnyddiwr gwasanaeth yn cael gofal gan gorff GIG a darparwr gofal cymdeithasol (boed mewn model cymysg o gyflenwi neu ar wahân), mae'n bosibl y gallai darparwyr lluosog fod wedi cyfrannu at y niwed sydd wedi'i achosi i'r defnyddiwr gwasanaeth. Mewn achosion o'r fath bydd gan bob darparwr ei gyfrifoldebau ei hun o dan y ddyletswydd gonestrwydd (neu'r ddyletswydd gyfatebol i ddarparwyr gofal cymdeithasol).
- 6.10 Dylai darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol drafod a chydweithio i hysbysu ac ymchwilio i'r digwyddiad er mwyn lleihau unrhyw ofid ac osgoi cyfathrebu lluosog i'r defnyddiwr gwasanaeth. Er enghraifft ni fyddai'n briodol fel arfer i deulu gael dau hysbysiad "uniongyrchol" ar wahân am farwolaeth aelod o'r teulu oherwydd diffyg cyfathrebu rhwng darparwyr.

Fodd bynnag, bydd pob darparwr yn cadw'i gyfrifoldebau unigol o dan ei briod ddyletswydd gonestrwydd a rhaid iddo fodloni ei hun eu bod wedi'u bodloni.

Cymhwyso'r weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd i gomisiynu a chynnal gwasanaethau.

- 6.11 Mae adran 11 o'r Ddeddf yn egluro pa sefydliadau fydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd mewn sefyllfaoedd lle caiff gwasanaethau eu darparu gan un corff ar ran corff arall. Mae'r sefyllfa, mewn perthynas â threfniadau gwahanol, wedi'i nodi isod:

Gwasanaethau a Gomisiynir gan un Corff GIG oddi wrth un arall yng Nghymru

- 6.12 Mae corff GIG yng Nghymru yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd mewn perthynas â'r holl ofal y mae'n ei ddarparu. Felly, er enghraifft, pan fydd Bwrdd Iechyd yn ymrwmo i drefniadau gyda darparwr gofal sylfaenol i ddarparu gwasanaethau GIG, y darparwr gofal sylfaenol sy'n rhwym wrth y ddyletswydd.
- 6.13 Yn yr un modd, os bydd Bwrdd Iechyd yn ymrwmo i drefniadau gydag Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau, yr Ymddiriedolaeth GIG sy'n gyfrifol am y ddyletswydd.

Gwasanaethau a Gomisiynir gan Gyrrff nad ydynt yn Gyrrff GIG yng Nghymru

- 6.14 Os bydd corff GIG yn ymrwmo i drefniant i ddarparu gwasanaethau gyda rhywun ar wahân i un o gyrrff eraill y GIG, y corff GIG sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd. Felly, er enghraifft, pe bai bwrdd iechyd lleol yn ymrwmo i drefniant gyda darparwr annibynnol i ddarparu gwasanaethau, byddai'r ddyletswydd yn gymwys i'r Bwrdd Iechyd lleol.
- 6.15 Yn yr amgylchiadau hyn, mater i'r corff GIG fyddai hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran, yn achos yr hysbysiad "uniongyrchol" yn unol â rheoliad 4 a'r hysbysiad ysgrifenedig yn unol â rheoliad 5.
- 6.16 Mae darpariaethau Rheoliadau 2011 yn gymwys i bersonau sy'n darparu gwasanaethau o dan drefniadau gyda chorff GIG. Felly, fel sy'n wir ar hyn o bryd, mater i'r darparwr annibynnol fyddai ymchwilio i amgylchiadau'r canlyniad andwyol hysbysadwy a chyfleu canlyniad yr ymchwiliad hwnnw i'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran.
- 6.17 Dylai Gyrrff GIG sicrhau bod eu trefniadau comisiynu gyda darparwyr annibynnol yng Nghymru nad ydynt yn rhan o'r GIG yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr annibynnol eu hysbysu pan fyddant o'r farn bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno, fel y gall y corff GIG gydymffurfio â'i rwymedigaethau mewn perthynas â hysbysu o dan y Ddeddf. Bydd angen i'r trefniadau comisiynu hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr annibynnol roi digon o wybodaeth i'r corff GIG i'w alluogi i gydymffurfio â'i rwymedigaethau adrodd o dan adran 7 o'r Ddeddf.

Cymhwyso'r Ddyletswydd Gonestrwydd i Ofal a Gomisiynir y Tu Allan i Gymru

6.18 Dim ond os yw'r gofal iechyd yn cael ei ddarparu yng Nghymru fel rhan o wasanaeth yn y GIG y mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn gymwys o dan y Ddeddf. Er enghraifft, os bydd Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwmo i drefniadau gyda darparwr yn Lloegr, boed y darparwr hwnnw'n gorff GIG neu'n ddarparwr annibynnol, i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr, dyletswydd gonestrwydd Lloegr o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 fydd yn gymwys mewn perthynas â'r gofal hwnnw.

6.19 Mae Rhan 7 o Reoliadau'r Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 yn amlinellu'r dull gweithredu i'w ddefnyddio o ran gwasanaethau yr ymgymherir â hwy gan Gyrrff GIG Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon pan fo digwyddiadau a phryderon yn codi sy'n ymwneud â diogelwch cleifion.

Mae **Atodiad A1** yn nodi siart llif y weithdrefn ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir.

Gwasanaethau a Gynhelir:

6.20 Pan fo gofal iechyd yn cael ei ddarparu gan sefydliad neu wasanaeth sy'n cael ei gynnal gan y corff GIG (er enghraifft rhwydwaith clinigol), mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn gymwys i'r corff GIG fel yr endid cyfreithiol sy'n cynnal y gwasanaeth neu'r sefydliad.

Pennod 7 – Ystyriaethau Arbennig

Plant a Phobl Ifanc

7.1 Mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn gymwys o ran gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu yng Nghymru i blant a phobl ifanc. Mae lles plant a phobl ifanc, a'u hawliau i gael eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth, yn egwyddorion hanfodol i'r dull gweithredu pan fydd pethau'n mynd o chwith gyda gofal plentyn neu berson ifanc³⁵.

7.2 O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (erthygl 12), dylai plant a phobl ifanc fod yn rhan – os ydyn nhw'n gallu bod ac yn dymuno bod – o drafodaethau am ganlyniadau andwyol sy'n effeithio'n uniongyrchol arny'n nhw. Mae hyn ar y cyd â hawl y plentyn neu'r person ifanc i'r safonau

³⁵ Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - y Cenhedloedd Unedig.
https://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/UNCRC_summary-1_1.pdf

iechyd uchaf y gellir eu cyrraedd (erthygl 24) a'r hawl i gael a rhoi gwybodaeth (erthygl 13).

7.3 Gonestrwydd, tryloywder a didwylledd yw'r egwyddorion moesegol arweiniol i'w mabwysiadu a rhaid cynnal trafodaethau mewn modd sensitif sy'n ystyried oedran, profiad y plentyn neu'r person ifanc o ofal iechyd, ei alluedd meddyliol a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc unigol a, lle bo hynny'n briodol, y rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni.

7.4 Wrth gyflawni'r ddyletswydd gonestrwydd mewn amgylchiadau sy'n ymwneud â gofal iechyd a ddarparwyd i blentyn neu berson ifanc, rhaid i gorff GIG hysbysu'r "person perthnasol" o'r canlyniad andwyol hysbysadwy (gweler rheoliad 3 o reoliadau'r ddyletswydd gonestrwydd). Gall hwn fod y plentyn neu'r person ifanc ei hun, oni bai ei fod: ³⁶

- yn 16 oed neu drosodd a heb y galluedd (o fewn ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005) mewn perthynas â'r mater, neu
- o dan 16 oed a ddim yn gymwys i wneud penderfyniad mewn perthynas â'i ofal neu ei driniaeth;

os felly, mae'r "person perthnasol" yn berson sy'n gweithredu'n gyfreithiol ar ran y plentyn neu'r person ifanc.

7.5 Os yw'r mae'r mater yn ymwneud â phlentyn sydd o dan 16 oed, mae'n bwysig bod ystyriaeth yn cael ei rhoi ynglŷn ag a yw'r plentyn yn bodloni "cymhwysedd Gillick"³⁷ h.y. a oes gan y plentyn y galluedd gofynnol yn ôl y gyfraith ac a yw'n ddigon aeddfed a deallus i ddeall yr wybodaeth a ddarperir ac i wneud penderfyniadau am ei iechyd a'i driniaeth feddygol ei hun. Dylai'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n ceisio cydsyniad y plentyn neu'r person ifanc gynnal yr asesiad cymhwysedd Gillick os yw wedi'i hyfforddi'n ddigonol i wneud hynny.

7.6 Fodd bynnag, hyd yn oed os yw plentyn yn bodloni cymhwysedd Gillick, neu os ystyrir bod gan berson ifanc y galluedd meddyliol gofynnol, dylid annog plant a phobl ifanc i gynnwys eu rhieni neu warcheidwaid yn y trafodaethau hyn lle bo hynny'n ddoeth ac yn fuddiol. Fel arall, gall eiriolwr fod o ddefnydd yn yr amgylchiad hwn. Yn aml, rhieni a gwarcheidwaid sydd yn y sefyllfa orau i ddeall a chynghori'r tîm gofal iechyd ac, yn aml, maent yn ffynhonnell gymorth bwysig i'r plentyn a'r person ifanc sy'n dod i delerau â'r ffaith fod niwed wedi digwydd yn sgil eu gofal.

7.7 Mae angen meddwl yn ofalus am ddefnyddio iaith ag eglurhad priodol a, lle bo'n briodol, dylid gwneud hyn mewn modd amserol ac mewn partneriaeth â rhieni neu warcheidwaid. Gall defnyddio gweithwyr proffesiynol priodol sydd â

³⁶ Mae rheoliad 3 o Reoliadau Gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd (Cymru) hefyd yn darparu mai'r "person perthnasol" yw rhywun sy'n gweithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaeth os yw wedi marw neu os yw wedi rhoi gwybod i'r corff cyfrifol ei fod wedi enwebu person i weithredu ar ei ran.

³⁷ Gillick v West Norfolk and Wisbech AHA [1986] A.C. 112

phrofiad o gyfathrebu â phlant fod o werth aruthrol yn yr amgylchiadau hyn. Mae hyn yn bwysig er mwyn lliniaru yn erbyn y risg o achosi niwed neu ofid pellach wrth hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc o'r canlyniad andwyol hysbysadwy, gan barhau hefyd i fod yn agored ac yn onest gyda'r plentyn neu'r person ifanc am yr hyn sydd wedi digwydd yn unol â dyletswydd gonestrwydd, a hawliau ehangach plant a phobl ifanc i gael eu cadw'n gyfan gwbl yn y darlun.

- 7.8 Os nad ystyrir bod y plentyn yn bodloni cymhwysedd Gillick rhaid rhoi hysbysiad i berson sy'n gweithredu ar ran y plentyn (e.e. ei rieni neu ei warcheidwad cyfreithiol).
- 7.9 Yn yr amgylchiad hwn, mae'n bwysig ystyried barn y rhieni neu'r gwarcheidwaid ynghylch sut y gellir hysbysu plentyn neu berson ifanc am yr hyn sydd wedi digwydd yn eu gofal neu eu triniaeth a dylid ystyried sut y gall y tîm gofal iechyd gefnogi'r drafodaeth honno. Fel rhan o'r drafodaeth honno, dylid ystyried buddiannau gorau'r plentyn neu'r person ifanc o ran y modd y cynhelir y drafodaeth, gan ofalu peidio ag achosi niwed neu ofid pellach.
- 7.10 Rhaid ystyried i'r egwyddorion a'r canllawiau diogelu gael eu hystyried bob amser, ynghyd â'r angen weithiau i roi gwybod am bryderon ynghylch diogelwch plentyn neu berson ifanc a ddarganfuwyd drwy'r trafodaethau hyn lle bo hyn wedi'i fandadu'n gyfreithiol neu'n broffesiynol.
- 7.11 Mae'n hanfodol bod y broses o wneud penderfyniadau ac o asesu cymhwysedd i ddeall a chymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal yn cael ei dogfennu'n dda. Mae'n bwysig hefyd fod unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud i beidio â rhannu gwybodaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- 7.12 Rhaid cydnabod bod plant a phobl ifanc yn aml yn ymwybodol o ddigwyddiadau a newidiadau yn eu gofal, a gall fod o gymorth mawr i berson ifanc ddeall pam y mae wedi digwydd.
- 7.13 Yn aml gall plant a phobl ifanc ofni canlyniadau aneglur. Gall ofnau o'r fath gael eu creu pan na thrafodir materion a digwyddiadau gyda nhw, a'r plant a'r bobl ifanc yn cael eu gadael yn ansicr ynghylch pam fod pethau wedi digwydd a beth yw'r camau nesaf yn eu gofal. Mae hyn yn arwain at gynyddu pryder, gofid a straen meddyliol.
- 7.14 Mae'n hanfodol sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i fod yn bartneriaid yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal, gyda'u rhieni neu warcheidwaid a'u tîm gofal iechyd, lle bo hyn yn briodol ac yn bosibl. Mae'n bwysig fod y plentyn, y person ifanc a'i uned deuluol bob amser yn rhan ganolog o broses dda o gyfathrebu gonest ac agored, ac o benderfyniadau am eu gofal ac mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo niwed anfwriadol neu annisgwyl wedi digwydd.

Adolygu Achosion yn Ôl-weithredol

- 7.15 Gall canlyniadau andwyol ddod yn hysbys yn dilyn adolygu achosion difrifol yn ôl-weithredol, pan fydd nifer fawr o gleifion yn cael eu hadalw, neu yn dilyn penderfyniad gan y gwasanaeth archwilio meddygol neu gwest crwner, lle nad oedd yr achos a briodolir i'r farwolaeth yn hysbys adeg y digwyddiad. Yn ogystal, gall manylion pellach, nad oeddent yn hysbys yn ystod yr adolygiad cychwynnol, ddod yn hysbys yn ystod yr ymchwiliad i'r digwyddiad. Yn yr achosion hyn, gallai'r ddyletswydd ddal i fod yn gymwys.
- 7.16 Pan gynhelir adolygiad achos o'r fath, ac os yw'r amodau gofynnol ar gyfer dyletswydd gonestrwydd wedi'u bodloni, mae'r sefydliad felly'n dod yn 'ymwybodol' o'r canlyniad andwyol hysbysadwy. Yr adeg hon y dylid cychwyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd, os nad oedd wedi'i chychwyn o'r blaen.
- 7.17 Pe bai'r hysbysiad 'uniongyrchol' yn cael ei wneud yn hwyrach na 30 diwrnod gwaith ar ôl i'r corff cyfrifol ddod yn ymwybodol gyntaf o'r canlyniad andwyol hysbysadwy, rhaid i'r corff cyfrifol roi esboniad o'r rheswm dros yr oedi.

Digwyddiadau Canlyniadau Andwyol sy'n Digwydd cyn i'r Ddyletswydd Gonestrwydd Ddod i Rym

- 7.18 Ni fwriedir i'r ddeddfwriaeth dyletswydd gonestrwydd gael ei defnyddio ar gyfer canlyniadau andwyol a ddigwyddodd cyn y dyddiad y daeth y ddeddfwriaeth i rym. Mewn termau ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhaid bod yr amodau sy'n sbarduno dyletswydd gonestrwydd (h.y. darparu gofal iechyd a'r niwed a ddigwyddodd), wedi digwydd ar ôl 1 Ebrill 2023. Fodd bynnag, byddem yn dal i ddisgwyl i chi ymddiheuro a bod yn agored a thryloyw gyda phobl am beth bynnag sydd wedi'i ddarganfod **yn unol ag ethos gweithio i wella**³⁸.

Pennod 8 Trefniadau goruchwyllo

- 8.1 Mae rheoliad 10 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrrff GIG ddynodi person i fod yn gyfrifol am gynnal trosolwg strategol o weithrediad y weithdrefn gonestrwydd a nodir yn Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd. Pan fo'r corff GIG yn Fwrdd Iechyd Lleol, yn Ymddiriedolaeth neu'n Awdurdod Iechyd Arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG o ran ei swyddogaethau yng Nghymru) rhaid i'r person fod yn un o'i aelodau nad ydynt yn swyddogion neu'n un o'i gyfarwyddwyr anweithredol, fel y bo'n briodol.
- 8.2 Mae gan ddarparwyr gofal sylfaenol ddisgresiwn ynghylch i bwy y maent yn neilltuo rolau o'r fath.

³⁸ Gweithio i Wella – Canllawiau ar ddelio â phryderon am y GIG o 1 Ebrill 2011 Fersiwn 3 – Tachwedd 2013 <https://nwssp.nhs.wales/ourservices/legal-risk-services/legal-risk-services-documents/general-medical-practice-indemnity-gmpi-docs/healthcare-quality-guidance-dealing-with-concerns-about-the-nhs/>

- 8.3 Mae rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrrff GIG ddynodi person sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r weithdrefn yn effeithiol o ddydd i ddydd o dan Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd"). Pan fo'r corff GIG yn Fwrdd Iechyd Lleol, yn Ymddiriedolaeth neu'n Awdurdod Iechyd Arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG o ran ei swyddogaethau yng Nghymru) rhaid i'r swyddog cyfrifol fod yn un o'i aelodau sy'n swyddogion neu'n un o'i gyfarwyddwyr gweithredol, fel y bo'n briodol.
- 8.4 Ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol, rhaid i hwn fod y person sy'n gweithredu fel Prif Weithredwr y corff. Os nad oes Prif Weithredwr, rhaid iddo fod:
- y person sy'n unig berchennog.
 - mewn achosion o bartneriaeth, partner; neu
 - mewn unrhyw achos arall, cyfarwyddwr neu berson sy'n gyfrifol am reolaeth.
- 8.5 Mae Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yn caniatáu i swyddogaethau'r swyddog cyfrifol gael eu dirprwyo i berson arall, ar yr amod bod y person hwnnw o dan reolaeth a goruchwyliaeth uniongyrchol y swyddog cyfrifol. Fodd bynnag, bydd yr atebolrwydd yn nwylo'r swyddog cyfrifol ei hun.
- 8.6 Ystyrir ei bod yn arfer da i'r unigolion sy'n cael eu dynodi yn unol â rheoliadau 10 ac 11 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd fod yr un unigolion a enwebir, yn y drefn honno. o dan reoliadau 6 a 7 o Reoliadau 2011³⁹, oherwydd bod cysylltiadau agos rhwng y weithdrefn gonestrwydd a'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i bryderon yn Rheoliadau 2011.

GOFYNION ADRODD

- 8.7 O dan y ddyletswydd, bydd yn ofynnol i Gyrrff GIG gyflwyno adroddiad blynyddol ar gydymffurfio â'r ddyletswydd a chyhoeddi eu hadroddiadau. Bydd gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol gasglu'r wybodaeth hon gan y darparwyr gofal sylfaenol hynny y byddant yn ymrwymo i gontract neu i drefniadau am wasanaethau gyda nhw a chyhoeddi adroddiad cyfun. Mae **Atodiad G** yn cynnwys siart llif sy'n nodi'r gofynion adrodd, cyhoeddi a monitro.
- 8.8 Wrth adrodd, bydd rhaid i Gyrrff GIG nodi a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno yn ystod y flwyddyn adrodd (a ddiffinnir fel pob cyfnod o 12 mis a ddaw i ben ar 31 Mawrth (pob blwyddyn ariannol)), ac os ydyw:
1. nodi pa mor aml mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno yn ystod y flwyddyn adrodd;
 2. rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at sbarduno'r ddyletswydd;

³⁹ Mae rheoliad 6 o Reoliadau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i berson gael ei benodi i gynnal trosolwg strategol o'r trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon o dan y Rheoliadau hynny ac mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i berson gael ei benodi i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon yn cael eu gweithredu'n effeithiol o ddydd i ddydd mewn modd integredig.

3. nodi unrhyw gamau sydd wedi cael eu cymryd gan y corff gyda golwg ar atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

8.9 Rhaid paratoi'r adroddiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.

8.10 I symleiddio'r drefn adrodd yn flynyddol yng Nghymru ac i leihau dyblygu cynnwys, ond gan sicrhau bod yr holl ofynion rheoleiddiol yn cael eu bodloni, dylai Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig gynnwys eu hadroddiadau gonestrwydd yn yr Adroddiad Gweithio i Wella y dylid ei gyhoeddi yn unol â rheoliad 51 o Reoliadau 2011⁴⁰ erbyn 31 Hydref bob blwyddyn.

8.11 Mae rheoliad 51 o Reoliadau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau a darparwyr gofal sylfaenol baratoi adroddiad blynyddol yn rhoi gwybodaeth ynglŷn a phryderon, (gan gymryd bod pryderon yn cynnwys cwynion, digwyddiadau diogelwch cleifion a hawliadau). Ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol, mae hyn yn cynnwys anfon eu hadroddiad at y Bwrdd Iechyd Lleol y maent wedi ymrwymo i drefniadau ag ef, gan ganiatáu ar gyfer ei gasglu a'i gyhoeddi yn adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella y Bwrdd Iechyd Lleol⁴¹, a'i ystyried yn Natganiad Ansawdd Blynyddol pob sefydliad.

Darparwyr Gofal Sylfaenol: dyletswydd i adrodd

8.12 Rhaid i ddarparwyr gofal sylfaenol baratoi adroddiad mewn perthynas â'r gofal iechyd y maent yn ei ddarparu dan gontract neu drefniant arall gyda'u Bwrdd Iechyd. Rhaid i'r adroddiad ddatgan, yn ystod y flwyddyn adrodd (a ddiffinnir fel pob cyfnod o 12 mis a ddaw i ben ar 31 Mawrth, (pob blwyddyn ariannol)), a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan y darparwr gofal sylfaenol.

8.13 Os ydyw, rhaid i'r adroddiad wneud y canlynol:

1. pennu pa mor aml y mae hyn wedi digwydd yn ystod y flwyddyn adrodd;
2. rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at sbarduno'r ddyletswydd;
3. disgrifio unrhyw gamau sydd wedi'u cymryd gan y darparwr gyda golwg ar atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

8.14 Rhaid cyflwyno'r adroddiad a baratowyd i'r Bwrdd Iechyd Lleol ar ôl ei gwblhau.

⁴⁰ Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011) (OS 2011/704). Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/704/contents/made>

⁴¹ Llywodraeth Cymru. Gweithio i wella - Canllawiau ar ymdrin â phryderon am y GIG o 1 Ebrill 2011 [y Rhyngwyd]. Llywodraeth Cymru; 2013. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/932/Healthcare%20Quality%20-%20Guidance%20-%20Dealing%20with%20concerns%20about%20the%20NHS%20-%20Version%203%20-%20CLEAN%20VERSION%20-%2020140122.pdf>

- 8.15 Os yw'r darparwr Gofal Sylfaenol wedi darparu gofal iechyd ar ran dau neu ragor o Fyrddau Iechyd Lleol, bydd adroddiad ar wahân yn cael ei baratoi a'i roi i bob Bwrdd Iechyd Lleol ar ôl ei gwblhau.
- 8.16 Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol sy'n derbyn yr adroddiad baratoi crynodeb o'r adroddiadau a dderbyniwyd gan y darparwyr Gofal Sylfaenol yn yr adroddiad gonestrwydd y byddant yn ei gyhoeddi.
- 8.17 O ganlyniad, er mwyn rhoi amser i Fyrddau Iechyd Lleol lunio'r crynodeb, rhaid rhoi adroddiadau o'r fath i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol heb fod yn hwyrach na **30 Medi** bob blwyddyn.
- 8.18 Er nad yw defnyddio system Datix yn orfodol, bydd swyddogaethau yn Datix yn hwyluso casglu gwybodaeth sy'n angenrheidiol i fodloni'r gofynion adrodd y mae angen eu cyflwyno i Fyrddau Iechyd Lleol.

Cyhoeddi Adroddiadau

- 8.19 Rhaid cyhoeddi'r adroddiadau blynyddol ar y ddyletswydd gonestrwydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol. Yn achos Byrddau Iechyd Lleol, rhaid i'w hadroddiad gynnwys crynodeb o'r adroddiadau sydd wedi'u darparu gan ddarparwyr gofal sylfaenol sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Bwrdd Iechyd Lleol.
- 8.20 Felly, bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am gyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gonestrwydd mewn perthynas â'i wasanaethau ei hun a'r gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr gofal sylfaenol yn ei ardal. Bydd hyn yn golygu bod yr holl wybodaeth am y ddyletswydd gonestrwydd mewn perthynas ag ardal y Bwrdd Iechyd Lleol yn cael ei chyhoeddi gyda'i gilydd.
- 8.21 Fel y nodir uchod, dylai adroddiadau o'r fath gael eu cyhoeddi erbyn **31 Hydref** bob blwyddyn.

TREFNIADAU SICRWYDD A MONITRO'R BWRDD

- 8.22 Nid yw mynd yn groes i'r ddyletswydd gonestrwydd yn drosedd. Prif nod y ddyletswydd yw canolbwyntio ar ddysgu a gwella, yn hytrach nag ar gosbi pan nad yw cyrff y GIG yn cyflawni'r ddyletswydd.
- 8.23 Fodd bynnag, dylai Cyrff GIG ystyried sut gellir integreiddio'r gwaith o fonitro gweithrediad effeithiol y camau gweithredu sy'n ofynnol o dan y ddyletswydd gonestrwydd i'r fframweithiau, y prosesau a'r gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol presennol. Dylid ceisio sicrwydd i gadarnhau bod holl elfennau'r weithdrefn yn cael eu rhoi ar waith pan ddylent fod, a bod ffyrdd o gynorthwyo gwaith gwella a mireinio parhaus yn y ffordd y mae'r corff GIG yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol.

- 8.24 Dylai arweinwyr a rheolwyr yn y corff GIG sicrhau bod gweithredu'r ddyletswydd gonestrwydd yn rhan allweddol o'r systemau dysgu yn eu meysydd gwasanaeth, a bod yr integreiddio a'r cysoni angenrheidiol â phrosesau a gweithdrefnau wedi digwydd ac yn atgyfnerthu'r gwerthoedd a ddisgwylir yn eu maes gwasanaeth.
- 8.25 O ran Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig, disgwylir y bydd perchnogaeth ac atebolrwydd lleol, gyda diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu drwy gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, lle y gall Aelodau Annibynnol ofyn am sicrwydd bod y ddyletswydd yn cael ei chyflawni, bod y dysgu'n cael ei ddatblygu a bod pryderon yn cael eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd os yw hynny'n briodol.
- 8.26 Bydd y gwaith o weithredu a chydymffurfio â'r ddyletswydd hefyd yn cael ei drefnu i'w drafod mewn cyfarfodydd grŵp ansawdd a chyflawni rhwng Llywodraeth Cymru a Chyrff GIG unigol, y grŵp ansawdd a chyflawni cenedlaethol a bydd yn sail i gyfarfodydd y Cyd-dîm Gweithredol a gwerthusiadau'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda Chadeiryddion Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig.
- 8.27 Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cynnwys yr adroddiadau blynyddol ochr yn ochr â ffynonellau eraill o wybodaeth a fydd yn helpu i driongli'r defnydd o'r ddyletswydd gan ystyried, er enghraifft, ddigwyddiadau difrifol sy'n cael eu hadrodd yn unol â'r polisi cenedlaethol newydd ar Gofnodi Digwyddiadau sy'n ymwneud â Diogelwch Cleifion.
- 8.28 Bydd cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd yn rhan o'r materion y bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn eu hystyried wrth arolygu ac adolygu'r GIG.
- 8.29 Bydd y gofynion adrodd blynyddol hefyd yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ac i Lywodraeth Cymru am y ddyletswydd, a fydd yn helpu i wneud y broses yn dryloyw ac yn hygyrch i'r cyhoedd ac i gyrff fel Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

CYFRINACHEDD

- 8.30 Mae'n bwysig sicrhau y glynir wrth ofynion GDPR bob amser wrth gyrchu gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau, ei phrosesu a'i datgelu. Rhaid i adroddiadau a chyhoeddiadau beidio â datgelu pwy yw unrhyw un y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu iddo neu wedi cael ei ddarparu iddo gan neu ar ran y corff GIG, nac unrhyw un sy'n gweithredu ar ran defnyddiwr gwasanaeth.
- 8.31 Rhaid gofalu hefyd na fydd modd adnabod rhywun yn ddjarwybod drwy'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi mewn adroddiad. Nid oes angen enwi rhywun er mwyn gallu ei adnabod os yw'r achos wedi cael sylw yn y wasg, er enghraifft . Neu, i roi enghraifft arall, pan fydd gan rywun gyflwr meddygol prin iawn ac y gallai enwi'r cyflwr olygu bod modd adnabod yr unigolyn.

- 8.32 Wrth rannu unrhyw wybodaeth hefyd, mae angen ystyried a oes gwrthdaro rhwng anghenion, a allai achosi oedi cyn rhannu gwybodaeth o'r fath; er enghraifft ymchwiliad troseddol neu broses ddiogelu, fel y nodir yn rheoliad 12 o reoliadau'r weithdrefn gonestrwydd.
- 8.34 Wrth gwblhau cofnodion o dan ddyletswydd gonestrwydd, dylai staff gofio y gallai unrhyw gofnodion a wneir mewn perthynas â'r digwyddiad gael eu datgelu i'r unigolyn o dan GDPR y DU (os eu data personol ydynt) neu i'r cyhoedd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (os nad eu data personol ydynt). Dylai staff hefyd gynnwys Swyddog Diogelu Data eu sefydliad pan ymddengys od canlyniad andwyol hysbysadwy yn golygu tor diogelwch data personol, gan y gallai hefyd fod gofynion adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan GDPR y DU.